## FFRAMWAITH CENEDLAETHOL GWASANAETH TÂN AC ACHUB – I GYMRU

## Rhagair

Ar Dachwedd 10, 2004, daeth y Cynulliad Cenedlaethol â Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i rym, sy'n golygu bod datganoli ffurfiol y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i'r Cynulliad bellach wedi digwydd.

Mae hwn yn amser cyffrous a heriol i'r Cynulliad, y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, personél y gwasanaeth a'n partneriaid eraill a'n rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio, nid yn unig i sicrhau ein bod yn parhau i dderbyn y gallu gorau un yn nhermau tân ac achub, ond hefyd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o gyflwyno'r agenda cyfiawnder cymdeithasol i Gymru, yr wyf i yn gyfrifol amdani. Mae hanes ardderchog y Gwasanaeth mewn perthynas â mynd i'r afael ag amrediad eang o wahanol argyfyngau wedi'i gofnodi'n gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae ganddo hefyd rôl cynyddol bwysig i'w chwarae mewn perthynas ag atal tân, addysg a chynnwys a chysylltu â'r cymunedau a wasanaethir ganddo, sy'n ganolog i gyflwyno ein hamcanion mewn perthynas â chynhwysiant cymdeithasol. Mae Diffoddwyr Tân yn fodelau rôl â pharch mawr iddynt ar gyfer ein pobl ifanc, tra bo gorsafoedd tân, sydd wedi'u lleoli yng nghanol llawer o'n cymunedau, yn dod yn gynyddol bwysig fel canolfannau ar gyfer gweithgaredd cymunedol, yn ogystal â'u rôl draddodiadol.

Mae'r ewyllys i wneud gwahaniaeth yn bodoli, ac rydym wedi bod yn gweithio ers sawl blwyddyn cyn datganoli, gyda'r Gwasanaeth ac eraill, ar ystod o brosiectau cydweithredol gyda'r nod o gwrdd â nodau ac amcanion y Gwasanaeth a nodau ac amcanion eangach y Cynulliad ar gyfer Cymru. Mae sefydlu Atal Tân Cymru, ein rhaglen o grantiau bychain yn ymwneud â llosgi bwriadol ac ymestyn y cynlluniau diffoddwyr tân ifanc yn ddim ond ychydig o'r amryfal brosiectau y buom yn cydweithio arnynt ar draws Cymru er budd pobl Cymru.

Fel sy'n addas gyda dogfen cyn bwysiced â hon, sy'n ffurfio'r strategaeth ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth tân ac achub a ddymunwn yng Nghymru, mae paratoi ac adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol yn y dyfodol bellach yn gyfrifoldeb statudol a bydd yn esblygu gydag amser, fel y bo blaenoriaethau ac anghenion yn galw. Yr wyf yn benderfynol y bydd y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn yn parhau i ddarparu'r safonau uchel y daethom i'w disgwyl ganddo ac y mae'r Fframwaith hwn yn gyfraniad pwysig i'r broses hon.

Edwina Hart AC, MBE

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Rhagymadrodd

### Gofynion Statudol

Paratowyd y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004") sy'n datgan bod yn rhaid i Fframwaith -

(a) nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion ar gyfer awdurdodau tân ac achub ("Awdurdodau") mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau;

(b) y gallai gynnwys cyfarwyddyd i'r Awdurdodau mewn perthynas â chyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau;

(c) y gallai gynnwys unrhyw fater yn ymwneud ag Awdurdodau neu eu swyddogaethau a ystyrir yn berthnasol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru adolygu telerau'r Fframwaith yn gyson a gall, o dro i dro, ei ddiwygio.

Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â pharatoi ac adolygu/diwygio'r Fframwaith er mwyn hyrwyddo -

(a) diogelwch y cyhoedd,

(b) darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Awdurdodau,

(c) darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mewn perthynas â materion y mae gan Awdurdodau swyddogaethau yn ymwneud â hwy.

Rhaid i Awdurdodau ystyried y Fframwaith wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae Deddf 2004 hefyd yn cynnwys mecanwaith ar gyfer ymyrraeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (adran 22). Os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r farn bod Awdurdod yn methu (neu'n debygol o fethu) gweithredu'n unol â'r Fframwaith, gall wneud gorchymyn i fynnu bod Awdurdod yn gwneud rhywbeth, yn rhoi'r gorau i wneud rhywbeth, neu i beidio â gwneud rhywbeth. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud gorchymyn os -

- yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r farn y byddai gwneud gorchymyn yn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd, darbodaeth, effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd yr Awdurdod; neu ddarbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mewn perthynas â materion y mae gan Awdurdodau swyddogaethau yn ymwneud â hwy;
- yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru , yn gyntaf, yn rhoi cyfle i'r Awdurdod wneud sylwadau am y gorchymyn arfaethedig; a
- yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried y protocol ymyrryd a baratowyd dan adran 23.

Mae Deddf 2004 yn pennu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar i ba raddau y mae Awdurdodau yn ymddwyn yn

unol â'r Fframwaith ac ar unrhyw gamau a gymerwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod Awdurdodau yn ymddwyn yn unol â'r Fframwaith (adran 25).

Mae hawl Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ymyrryd dan y Fframwaith yn wahanol, ac yn ychwanegol i hawliau'r Cynulliad os yw Awdurdod yn methu â chydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas â Gwerth Gorau.

**Cyffredinol**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod rhoi gwell gwasanaeth tân ac achub i bobl Cymru yn dibynnu'n bennaf ar ymdrechion awdurdodau tân ac achub unigol sy'n gweithio gyda'u cymunedau lleol ac, yn gynyddol, trwy gydweithredu.

Mae ffocws y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf i Gymru, felly, yn un o ddarparu ar lefel leol a Chymru gyfan, a sut y byddwn yn cyfrannu at amcanion cenedlaethol ehangach. Mae ganddo dri phrif amcan:

- Bod yn eglur ynghylch y canlyniadau a'r amcanion y mae Llywodraeth y Cynulliad am weld eu cyflawni;
- Nodi'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ei wneud i gwrdd â'r amcanion hyn;
- Egluro beth fydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gwrdd â'r amcanion hyn a pha strwythurau a roddir yn eu lle i gefnogi datblygiad ledled Cymru a chydweithrediad ar draws ffiniau.

Dyma ddechrau siwrne faith o ddatblygu a chydweithredu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r holl bartneriaid sydd â budd yng ngwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Bydd y Fframwaith felly'n esblygu wrth i'n meddyliau ni a'r cysylltiadau sydd angen eu gwneud i gefnogi'r polisi ddatblygu. Mae rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar yr Awdurdodau Tân ac Achub i ddiwallu anghenion penodol eu cymunedau lleol wrth wraidd calon ein dull o weithredu. Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio i fod yn sail gadarn i'r Gwasanaeth allu codi arni i ddod o hyd i atebion lleol.

Bydd Deddf 2004 yn rhoi'r Fframwaith ar seiliau statudol. Mae'n fwriad gennym barhau i ddiweddaru'r fframwaith ar gyfer blynyddoedd i ddod ac i adlewyrchu polisïau ac arferion sy'n datblygu, nid yn unig o fewn Llywodraeth y Cynulliad a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, ond hefyd yng nghymunedau Cymru. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd a'i ddiwygio os yn briodol. Bydd unrhyw ddiwygiadau mawr yn destun ymgynghori.

**Trefn**

Rhennir y Fframwaith yn ddeg pennod:

- **Pennod 1 – Yr Ymbarél Datblygu Partneriaeth** – sy'n ymdrin â datblygiad y cyrff ymgynghorol sydd gennym mewn golwg i sicrhau cydweithrediad Cymru gyfan a thraws-ffiniol priodol ar ddatblygu'r Gwasanaeth yn y dyfodol ac yng nghyswllt ein agenda diogelwch tân cymunedol.
- **Pennod 2 – Rheoli Risg ac Atal** – yn ymdrin â'r gwaith o atal tân a rheoli risg, gan gynnwys datblygu Cynlluniau Rheoli Risg Integredig.
- **Pennod 3 – Gweithio gyda'n Gilydd yn Effeithiol** – sy'n canolbwyntio ar drefniadau ar gyfer cydweithredu yn y gwasanaeth.
- **Pennod 4 – Ymateb yn Effeithiol** – yn canolbwyntio ar sicrhau ymateb proffesiynol ac effeithiol i lu o wahanol ddigwyddiadau.
- **Pennod 5 – Cadernid a'r Dimensiwn Newydd** – yn egluro sut ddylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymateb i'r bygythiad terfysgaeth newydd ac i drychinebau 'gwneud' a naturiol mawr eraill.
- **Pennod 6 – Staff Tân ac Achub** – yn delio gyda rheoli staff y gwasanaeth tân ac achub yn deg ac effeithiol, gan gynnwys materion pwysig cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- **Pennod 7 – Datblygu'r Gweithlu** – yn ymdrin â gweithredu'r System Datblygiad Personol Integredig a darparu hyfforddiant.
- **Pennod 8 – Cyllid** – yn delio gyda'r cyllid a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad a materion rheolaeth ariannol.
- **Pennod 9 – Rheoli Perfformiad yn Effeithiol** – yn ymdrin â Gwerth Gorau a'r cynnydd gyda chyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.
- **Pennod 10 – Ymchwil** – yn amlinellu'r rhaglen ymchwil i gefnogi gweithgarwch o fewn y gwasanaeth.

## <u>Pennod 1 – Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru – Ymbarél Datblygu Partneriaeth</u>

### Cyrff Ymgynghorol

1.1 Yn ei datganiad i Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad ar 24 Medi 2003, ymrwymodd y Gweinidog i sefydlu dau grŵp ymgynghorol i weithredu, mewn partneriaeth, blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaeth tân ac achub y dyfodol yng Nghymru, ac i gynnal y cysylltiadau angenrheidiol gyda gweddill cymuned dân ac achub y DU. Y rhain fydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru y Gwasanaeth Tân ac Achub – i roi cyngor ar lunio polisïau a'u rhoi ar waith a chynghori Gweinidogion ar faterion tân ac achub - a'r Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol – i ddylanwadu ar, a datblygu materion gweithrediadol a phrosiectau atal tân i gefnogi gwaith tân ac achub yn ein cymunedau.

1.2 Bydd angen cynnal cyswllt agos rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdodau Tân ac Achub ynglŷn â datblygiad y gwasanaeth. I'r perwyl hwn, rhoddir y trefniadau cyfredol ar sail ffurfiol.

### Grŵp Cyswllt y Gwasanaeth Tân ac Achub

1.3 Bydd y grŵp hwn yn cynnwys y Gweinidog yn y Cynulliad sy'n gyfrifol am bolisïau tân ac achub a Chadeiryddion a Phrif Swyddogion y tri awdurdod. Bydd yn cyfarfod yn rheolaidd, ac o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Gwasanaethir y grŵp gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Bwriedir ymgynghori â'r rhanddeiliaid ynghylch y cylch gorchwyl manwl, a bydd y cylch gorchwyl hwnnw ar ei wedd derfynol erbyn haf 2005.

### Pwyllgor Ymgynghorol Cymru y Gwasanaeth Tân ac Achub

1.4 Credwn mai trwy Bwyllgor sefydlog – Pwyllgor Ymgynghorol Cymru y Gwasanaeth Tân ac Achub – y ceir y cyngor gorau am ddatblygu polisi yng Nghymru.

1.5 Penodir aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol gan y Gweinidog a fydd hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolydd o Awdurdodau Tân ac Achub; Prif Swyddog Tân o un o'r Awdurdodau Tân ac Achub; cynrychiolydd o blith gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub; cynrychiolydd awdurdodau lleol; ac er mwyn dod ag ystod eangach o brofiad ac arbenigedd i faes datblygu polisi, cynrychiolydd cynghorau cymuned a thref a chynrychiolaeth o blith byd busnes a diwydiant. Fod bynnag, bydd hyn hefyd yn galluogi'r Pwyllgor i gael ei gadw'n hylaw o ran niferoedd.

1.6 Bwriedir ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid ynghylch Cylch Gorchwyl manwl y Pwyllgor, a bydd y cylch gorchwyl hwnnw ar ei wedd derfynol erbyn haf 2005.

**Y Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol (PDTC)**

1.7 Ers sawl blwyddyn mae'r Cynulliad wedi meithrin cysylltiad gweithio agos gyda'r Gwasanaeth ac eraill ym maes diogelwch tân cymunedol. Mae'r berthynas hon – dan faner y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol – wedi arwain at gynhyrchu dau adroddiad a groesawyd yn frwd ar broblemau tanau domestig yng Nghymru, a llosgi'n fwriadol; at sefydlu Atal Tân Cymru (Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru gynt); ac wedi gweld y Cynulliad yn rhoi cyllid sylweddol ar gyfer gweithgarwch y Gweithgor yn y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gyllideb yn cynyddu o £3m yn 2003-04 i £5m yn 2004-05.

1.8 Gyda'r cysylltiadau parod hyn, nod Llywodraeth y Cynulliad yn awr yw adeiladu ar lwyddiant ac arbenigedd y Gweithgor trwy ddatblygu'r Pwyllgor Cymunedol i gefnogi'r Awdurdodau Tân ac Achub gyda gweithredu rhaglenni diogelwch tân cymunedol yng Nghymru. Bwriadwn ddod â chymaint o arbenigedd a phrofiad gwahanol ag sy'n bosibl i'r Pwyllgor, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r cymunedau busnes, diwydiannol a lleol. Bwriedir ymgynghori â'r rhanddeiliaid ynghylch y cylch gorchwyl manwl ac ynghylch y cyfansoddiad arfaethedig, a bydd y dogfennau hynny'n cael eu rhoi ar eu gwedd derfynol yn ystod 2005.

## Pennod 2: Rheoli ac Atal Risg

2.1 Ein hamcanion yw lleihau'n sylweddol, yn ystod pum mlynedd gyntaf y Fframwaith hwn, y nifer o farwolaethau ac anafiadau difrifol oherwydd tân sydd modd eu hatal, a cheisio lleihau'n sylweddol y marwolaethau a'r anafiadau difrifol o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffordd trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaethau brys eraill a llywodraeth leol, ddatganoledig a chenedlaethol a chydag asiantaethau eraill sy'n ymdrin ag achosion, a'r hyn a ddaw yn sgîl damweiniau o'r fath.

2.2 Dywedodd Y Gweinidog yn ei datganiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 24 Medi 2003 ein bod yn bwriadu:

> "... gosod targedau uchelgeisiol yn y pum mlynedd gyntaf i leihau'r niferoedd sy'n marw mewn tanau rhwng 30% a 50% a gweithio tuag at amcan asiantaethau eraill o leihau'r niferoedd sy'n marw neu'n cael eu hanafu mewn damweiniau ar y ffordd gan ffigwr tebyg."

2.3 Rydym yn parhau'n ymrwymedig i hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod y rhain yn dargedau sy'n gosod cryn her, oherwydd y gallai nifer fawr o anafiadau neu farwolaethau mewn un tân difrifol ddileu'r holl waith cadarnhaol a wnaethom dros nifer o flynyddoedd; ni fyddai hyn yn bosib chwaith pe bai'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru'n gweithio ar ei ben ei hun. Mae rôl i'w chwarae gan y gwasanaethau brys eraill ac amrywiol asiantaethau eraill, megis canghennau datblygu a chynnal ffyrdd awdurdodau lleol. Mae atal marwolaethau ac anafiadau mewn damweiniau ar y ffordd yn ddangosydd perfformiad allweddol i awdurdodau lleol, a fynegir drwy'r Cynllun Diogelwch Ffyrdd, sy'n nodi targedau penodol mewn perthynas ag atal marwolaethau ac anafiadau ar y ffordd. Yn ogystal, mae Deddf Rheoli Trafnidiaeth 2004 yn cynnig creu asiantaeth i ymdrin â chanlyniadau damweiniau ar y ffordd ar gefnffyrdd.

2.4 At y diben hwn, rydym am gadw llygad barcud ar hyn a byddwn yn ystyried gweithgareddau a llwyddiant yn ôl y targed hwn yn rheolaidd yn ystod y cyfnod pum mlynedd.

2.5 Byddwn yn gweithio tuag at y targedau hyn trwy:

- gynyddu gweithgarwch atal tân;
- sicrhau ymyrraeth briodol mewn argyfyngau tân a digwyddiadau eraill trwy sicrhau bod adnoddau yn y lle iawn ar yr amser iawn er mwyn darparu ymateb effeithiol;
- dylanwadu ar Lywodraeth y DU ac eraill yng nghyswllt newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu a gweithgarwch arall er mwyn dylunio ar gyfer diogelwch tân mewn tai newydd neu rai sy'n cael eu haddasu'n helaeth;
- adolygu, ar y cyd â'r gwasanaethau brys eraill, sut y gallwn atal gwrthdrawiadau ar y ffordd a sut y gallwn gynyddu nifer y bobl sy'n goroesi'r gwrthdrawiadau hyn. Efallai y gellir rhoi ystyriaeth i dargedau

ar y cyd ar gyfer pob asiantaeth yng Nghymru, dan nawdd Cyd-weithgor y Gwasanaethau Brys; a
- cheisio dylanwadu ar yr asiantaethau hynny sy'n ymdrin ag amddifadedd yn y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i greu gwelliannau yn yr ardaloedd hyn a chydag asiantaethau'n medru dylanwadu ar bolisïau yn ymwneud ag alcohol, ysmygu, cyffuriau, bwyta'n iach a ffordd o fyw, sy'n cael effaith ar berygl tân.

**Cynlluniau Rheoli Risg Integredig**

2.6 Nid oedd yr hen 'safonau ymateb tân' oedd yn ordeinio cyflymder a maint yr ymateb i danau gan ddibynnu ar ddwysedd yr adeilad, yn ddigon hyblyg i alluogi'r Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb i anghenion eu cymunedau. Yr oeddent yn canolbwyntio ar risg i eiddo yn unig, yn hytrach na'r risg i fywyd, ac nid oeddynt yn cymryd i ystyriaeth y digwyddiadau difrifol y bydd y Gwasanaeth yn ymateb iddynt, lle na cheir tân. Ers Ebrill 2003, disodlwyd y safonau cenedlaethol gan Gynlluniau Rheoli Risg Integredig (CRhRI) lleol. Mae pob Awdurdod Tân ac Achub wedi cynhyrchu Cynllun Rheoli Risg Integredig.

2.7 Mae Cynlluniau Rheoli Risg Integredig yn nodi beth yw strategaeth pob Awdurdod Tân ac Achub ar:
- leihau nifer a difrifoldeb y tanau ac, mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill, y damweiniau ar y ffordd a digwyddiadau argyfwng eraill sy'n digwydd yn yr ardal y mae'n gyfrifol amdani;
- lleihau difrifoldeb yr anafiadau mewn tanau, damweiniau ar y ffordd a digwyddiadau argyfwng eraill;
- lleihau effaith tanau a digwyddiadau argyfwng eraill ar fasnach, yr economi a chymdeithas;
- diogelu'r amgylchedd a threftadaeth (adeiledig a naturiol); a
- rhoi gwerth am arian.

2.8 Rhaid i Gynllun Rheoli Risg Integredig roi asesiad yr awdurdod o'r hyn yw'r risgiau lleol i fywyd ac, yn unol â'r dadansoddiad hwn, sut y bydd yn defnyddio ei adnoddau i ddelio gyda'r risgiau hyn a gwella diogelwch pob carfan o gymdeithas. Dylai'r Cynllun ganfod ffyrdd y gall yr awdurdod weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos ac asiantaethau eraill i ddiogelu'r cyhoedd yn well. Dylai ddatblygu'r cysylltiadau hyn ac adeiladu ar y gwersi a ddysgir. Rhaid iddo hefyd nodi'r targedau y bydd yr awdurdod yn ei osod iddo'i hun, a'r safonau y bydd yn eu defnyddio i ddiwallu patrwm penodol y risg yn lleol. Gwneir hyn yng nghyd-destun ei ddyletswydd statudol i sicrhau gwelliant parhaus a chyflawni Gwerth Gorau yn unol â fframwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a nodir ym Mhennod 9 o'r ddogfen hon. Dylai'r Cynllun Rheoli Risg Integredig ei hun fod yn ddogfen strategol a blaengar gan fabwysiadu dull a manylion cynlluniau rheoli newid a busnes. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol, a gynhyrchir un ai ar wahân neu ynghyd â'r prif gynllun, yn dweud beth fydd yr Awdurdod yn bwriadu ei wneud yn y flwyddyn i ddod. Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod eu Cynlluniau Rheoli Risg Integredig yn hwylus - i'r cyhoedd, i fusnesau a rhanddeiliaid eraill. Dylent

hefyd fod yn hawdd eu deall, ac yn glir ac yn fanwl ynglŷn ag yn union pa gynlluniau a gynigir gan Awdurdod ar gyfer ei strategaethau ymyrryd ac atal. Yn ogystal, dylai fod cyswllt clir rhwng y Cynllun Gweithredu a'r Amcanion Perfformiad a osodwyd i wella diogelwch y cyhoedd. Yn y cyswllt hwn, byddwn yn ystyried cynigion fel rhan o fframwaith Rhaglen Gwella Cymru, i gyflwyno targedau perfformiad y gellir mesur y gwasanaeth yn eu herbyn.

2.9 Cred y Cynulliad y bydd ymgynghori â'r gymuned a wasanaethir gan yr Awdurdod a bydd ei staff yn elfen hanfodol o baratoi Cynllun Rheoli Risg Integredig. Mae ymgynghoriad yn rhoi cyfle i egluro sut y bu Awdurdod yn perfformio, pa gyfleoedd sydd yna i wella diogelwch cymunedol, a sut y bydd unrhyw newidiadau yn cyflawni'r gwelliannau hynny. Yr egwyddor sylfaenol wrth benderfynu pa mor eang y dylid ymgynghori, yw y dylai unrhyw berson neu fudiad allai fod â diddordeb dilys yn y cynigion dan sylw, neu allai gael eu heffeithio gan y cynigion hynny, gael y cyfle i fynegi eu barn. Bydd cwmpas yr ymgynghoriad yn gymesur â natur a maint unrhyw newidiadau a fwriedir.

2.10 Mae'r Cynulliad o'r farn y bydd Cynllun Rheoli Risg Integredig yn ffurfio'r glasbrint strategol y bydd Awdurdod yn seilio'i benderfyniadau arno mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol a sut y bwriedir gwella diogelwch cymunedol. Cyn y gwneir penderfyniadau, wrth lunio'u Cynllun Gweithredu a Chynlluniau Rheoli Risg Integredig, mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y bydd Awdurdod yn ymgynghori, a dylai hyn gynnwys o leiaf:

- Y cyhoedd yn gyffredinol, trethdalwyr treth y cyngor, cartrefi ayyb.
- Mudiadau cymunedol, gan gynnwys grwpiau cymunedol penodol megis lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill sy'n aml yn cael eu heithrio,
- Cynrychiolwyr y cyhoedd, e.e. Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad,
- Sefydliadau Busnes,
- Awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, asiantaethau cyhoeddus a gwasanaethau brys eraill,
- Gweithwyr (mewn lifrai ac heb lifrai) a'u cynrychiolwyr,
- Llywodraeth y Cynulliad.

2.11 Disgwylir hefyd i awdurdodau ymgynghori ar Gynlluniau Gweithredu blynyddol dilynol os bydd y rhain yn cynnwys newidiadau yn y safonau a/neu darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau ymyrryd. Gan fod y Cynllun Gweithredu'n debygol o ffurfio rhan o broses cynllunio busnes Awdurdod, gallai fod yn fwyaf effeithiol os cydlynir yr ymgynghori.

2.12 Rhaid i'r Awdurdod werthuso ac ystyried yn ffurfiol bob ymateb a dderbynnir cyn dod i benderfyniad terfynol ar weithredu unrhyw gynigion. Dylai'r broses fod yn agored a thryloyw gan roi ystyriaeth i'r holl ffactorau a'r safbwyntiau perthnasol, gan gynnwys canfyddiadau o beryglon a wynebir a phryderon y cyhoedd. Maes o law, dylai Awdurdod ddarparu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, ynghyd â'i ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

2.13 Yn ystod 2003/04 lluniodd Awdurdodau eu Cynlluniau Rheoli Risg Integredig cyntaf, ymgynghorwyd arnynt gyda'u cymunedau lleol dros yr Hydref ac wedi rhoi ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad, bu iddynt ddechrau gweithredu eu cynlluniau gweithredu blwyddyn gyntaf o 1 Ebrill 2004. Dylai awdurdodau barhau i adolygu eu CRhRI a'u diwygio'n rheolaidd pan ddaw tystiolaeth neu arfau dadansoddi newydd ar gael. Dylent hefyd ddefnyddio profiad blaenorol i oleuo datblygiadau yn y dyfodol a monitro penderfyniadau a gymerwyd fel rhan o ymarferion CRhRI blaenorol i sicrhau eu bod yn parhau'n addas. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fu i'r broses ymgynghori godi pryderon ynglŷn â diogelwch y cyhoedd mewn cysylltiad â chynigion a fabwysiadwyd.

2.14 Mae canllawiau drafft Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub, a eglurir ymhellach ym Mhennod 9, yn tanlinellu pa mor ganolog yw'r Cynllun Rheoli Risg Integredig i'r broses asesu a rheoli risg tân o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

2.15 Yn gryno, rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub fod wedi cynhyrchu a chynnal Cynllun Rheoli Risg Integredig sy'n adlewyrchu'r angen lleol ac sy'n gosod cynlluniau i ddelio'n effeithiol â'r risgiau presennol a darpar risgiau a wynebir gan gymunedau. Dylent hefyd:

- gynhyrchu cynlluniau gweithredu blynyddol yr ymgynghorwyd arnynt gan roi ystyriaeth i farn eu cymunedau lleol, a chaniatáu deuddeg wythnos i wneud hyn;
- ystyried canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad ar gynhyrchu eu cynlluniau;
- sicrhau bod y dadansoddiad risg a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth yn eu Cynllun Rheoli Risg Integredig yn gadarn a dibynadwy ac y gellir cael tystiolaeth glir ohono i ddangos risgiau y medrir eu hadnabod yn ardal y Gwasanaeth;
- gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau i weithredu'r Cynllun Rheoli Risg a'r cynllun gweithredu, gan gynnwys arferion gweithio mwy effeithlon lle bo hynny'n briodol;

- Peidio gweithredu unrhyw gynigion sy'n deillio o'u Cynllun Rheoli Risg Integredig i gau neu ail-ddynodi gorsaf dân oni bai eu bod wedi ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad o flaen llaw ar y cynnig hwnnw ac wedi ystyried ymateb Llywodraeth y Cynulliad.

Wrth fwrw ymlaen â'r cynllun hwn, dylai Awdurdodau roi sylw i'w dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r Fframwaith hwn.

2.16 Rydym yn cydnabod y bydd Awdurdodau angen cefnogaeth gyda datblygu a chynnal eu Cynlluniau Rheoli Risg Integredig. Defnyddiodd awdurdodau yng Nghymru ganllawiau a baratowyd cyn datganoli ffurfiol gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (SDBW). Yr oeddynt yn cynnwys paratoi a chynnal Cynlluniau Rheoli Risg Integredig yn 2003, ac yn Ebrill 2004, cyfarwyddyd ar effaith y Rheoliadau Amser Gweithio ar batrymau gwaith

cyfredol a newydd[1]. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y bydd cynigion cyfredol ar gyfer 2005-06 hefyd yn seiliedig ar ganllawiau Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, ac yn ystod 2005, byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau newydd ar gyfer y cyfnod 2006-07. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad i adolygu penderfyniadau gweithredol a gymerwyd o ganlyniad i ymarferion CRhRI blaenorol i sicrhau eu bod yn parhau'n gadarn.

2.17 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Awdurdodau Tân ac Achub Cymru hefyd wedi manteisio ar:

- ymarfer glanhau data digwyddiadau 'un-tro yn unig' ar ran awdurdodau sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw, er mwyn helpu i sicrhau y gellir canfod a mesur risgiau lleol yn ddibynadwy;
- 'cyfarpar' Ymateb Argyfwng y Gwasanaeth Tân, sy'n seiliedig ar flynyddoedd o ymchwil i danau ar sail risg; a'r
- Timau Cefnogi Gweithredu (TCG) sydd wedi darparu cefnogaeth ac adborth ar arfer da sy'n datblygu. Mae SDBW yn parhau i gyllido gwaith pedwar aelod o'r TCG yn ystod 2004/05.

**Diogelwch Tân Cymunedol**

2.18 Mae Deddf 2004 yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau tân ac achub i hyrwyddo gwaith diogelwch tân cymunedol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu hyn fel agwedd bwysig ar foderneiddio'r gwasanaeth, fydd yn adeiladu ar weithgarwch ataliol y bu Llywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cydweithio arnynt ers sawl blwyddyn.

2.19 Dengys ymchwil ar draws Cymru a Lloegr mai'r rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu perygl tân, neu o gael eu heffeithio'n andwyol gan dân yw pobl yn y grwpiau cymdeithasol-economaidd is. Bydd adnabod patrymau risg yng Nghymru ac yna delio gyda'r risgiau a wynebir gan gymunedau bregus yn rhan bwysig o broses y Cynllun Rheoli Risg Integredig.

2.20 Gan gefnogi'r gwaith hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad ers blynyddoedd lawer wedi bod yn flaengar gyda datblygu polisïau diogelwch tân cymunedol ar gyfer Cymru, ers iddi sefydlu'r Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol yn 2001.

2.21 Roedd yr adroddiadau a gynhyrchwyd gan y Gweithgor ar danau domestig ('Wired for Safety') a llosgi'n fwriadol ('Up in Flames'), yn gwneud nifer o argymhellion i wella diogelwch tân domestig a lleihau achosion o losgi'n fwriadol yng Nghymru. Hon yw'r drydedd flwyddyn o roi cyllid i ystod o gynlluniau sydd wedi deillio o 'Wired for Safety' ac, fel enghraifft, erbyn Mawrth 2004 rydym wedi sicrhau bod gan 60,000 o dai cymdeithasol yng Nghymru larymau mwg wedi eu cysylltu i'r prif gyflenwad trydan, gan wneud cynnydd da gyda chyflawni'r argymhelliad yn yr adroddiad bod gan bob tŷ cymdeithasol larwm o'r fath erbyn diwedd 2005. Mae polisïau yng nghyswllt

---

[1] Nodyn Cyfarwyddyd CRhRI (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog Ebrill 2004). Gweler: www.odpm.gov.uk/irmp

‘Up in Flames’ yn cael eu datblygu, gan gynnwys yr argymhelliad penodol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu cynigion ar gyfer strategaeth gynhwysfawr i Gymru ar losgi bwriadol. I gyfrannu i hyn, yr ydym eisoes wedi ymroi i ddarparu cyllid am dair blynedd ar gyfer tri thîm peilot ar ostwng llosgi bwriadol, yn gweithio ym mhob un o ardaloedd y Gwasanaeth yng Nghymru, ac yr ydym wedi sefydlu rhaglen o grantiau bychain yn ymwneud â llosgi bwriadol, i gyllido prosiectau bychain lleol. I’r dyfodol, byddwn yn edrych tuag at y Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol i roi cyngor ar gynllunio blaenoriaethau gwariant i’r dyfodol, fel rhan o’i drafodaethau.

2.22 I gyd-fynd â’n gwaith yn y maes hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad a’r awdurdodau tân ac achub wedi sefydlu Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru, a elwir yn Atal Tân Cymru bellach. Cylch gorchwyl Atal Tân yw gwella ansawdd bywyd yng Nghymru trwy gyfrannu at leihau’r nifer o farwolaethau ac anafiadau oherwydd tân sydd modd eu hatal. Bydd yn gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar dri maes penodol o weithgarwch, trwy ymgyrchoedd hyrwyddo ac addysgu’r cyhoedd; ymchwil er mwyn deall achosion marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân yn well; a thrwy roi grantiau i gefnogi cynlluniau diogelwch tân lleol.

2.23 Mae Atal Tân Cymru wedi sefydlu perthynas waith glos gyda'r timau diogelwch tân cymunedol ym mhob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub ac y mae'n aelod o’r Cyd-weithgor Llosgi’n Fwriadol. Mae’n canolbwyntio’i ymdrechion ar ychwanegu gwerth drwy noddi gweithgareddau a gwasanaethau ar sail Cymru gyfan, cydlynu bidiau am brosiectau newydd a threfnu digwyddiadau a chynadleddau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol. Mae Atal Tân Cymru wedi gweithio’n galed i ddatblygu cysylltiadau gyda noddwyr posibl ac wedi llwyddo i ennill cefnogaeth busnesau. Mae enghreifftiau o’r llwyddiannau hyd yn hyn yn cynnwys:

- Firecracker (2003) - ymgyrch ddiogelwch tân gwyllt a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Thimau Diogelwch Tân Cymunedol drwy Gymru a Lloegr, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Adeiladu Cheltenham a Gloucester.

- Ymunodd Sam â Gwasanaeth Tân De Cymru yn 2003 fel eu Ci Canfod Llosgi Bwriadol cyntaf, diolch i nawdd gan Hill House Hammond. Hyfforddwyd Sam nid yn unig i arogli sylweddau cyflymu tân, ond y mae hefyd yn gweithio gyda’r timau diogelwch tân cymunedol, gan fynd â neges diogelwch tân i ysgolion.

- Fireflash (2004) – taflen diogelwch yn y gegin a ddanfonwyd i bob cartref yng Nghymru mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a noddwyr.

- Cynhadledd Achub Ein Hysgolion (2004) ar losgi ysgolion yn fwriadol, a drefnwyd ar ran y Cyd-weithgor Llosgi'n Fwriadol gyda chefnogaeth gan y Swyddfa Gartref.

- Cymorth wrth baratoi cais llwyddiannus am Wardeiniaid Amddiffyn Busnesau Rhag Llosgi'n Fwriadol.

**Ymddygiad Diogelwch Tân a Lleihau Llosgi Bwriadol**

2.24 Mae llosgi bwriadol yn broblem fawr mewn sawl ardal. Mae llosgi bwriadol yn peryglu bywydau, yn difrodi eiddo ac yn rhoi straen ar adnoddau awdurdodau tân a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Gall hefyd gael effaith negyddol iawn ar yr amgylchedd lleol – er enghraifft, mae ambell gymdogaeth wedi'i chreithio gan geir wedi llosgi a'u gadael. Aeth Llywodraeth y Cynulliad ati, trwy'r Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol, i ymchwilio i'r rhesymau dros losgi'n fwriadol yng Nghymru. Cyhoeddwyd y rhain yn ein hadroddiad 'Up in Flames' yn Chwefror 2003. Rydym yn parhau'n ymroddedig i weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

2.25 Roedd 'Up in Flames' yn cynnwys trafodaeth drylwyr ar y materion oedd yn berthnasol i broblemau llosgi bwriadol yng Nghymru gan y sefydliadau hynny oedd â diddordeb yn y maes, gan argymell:

- bod Llywodraeth y Cynulliad yn mabwysiadu cynigion yn yr adroddiad i sefydlu strategaeth Cymru gyfan i ddelio gyda phroblem llosgi bwriadol;
- mabwysiadu systemau dyfrio a mesurau eraill i leihau'r perygl o ymosodiadau llosgi bwriadol ar ysgolion;
- annog Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i roi ystyriaeth weithredol i losgi bwriadol a sefydlu Grwpiau lleol, trwy adlewyrchu arferion gorau mewn ardaloedd eraill, i roi sylw penodol i faterion llosgi bwriadol fel llosgi ceir a phroblemau lleol;
- ehangu ac adeiladu ar fentrau ieuenctid i ddelio gyda'r broblem o blant a phobl ifanc yn cynnau tanau'n fwriadol; a
- bod Llywodraeth y Cynulliad yn clustnodi cyllid i gefnogi'r gwaith hwn a'r Strategaeth Llosgi Bwriadol ar gyfer Cymru[2].

2.26 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnig nifer o dargedau tymor byr, canolig a hir i fesur llwyddiant neu aflwyddiant y Strategaeth Llosgi Bwriadol gyda lleihau digwyddiadau llosgi bwriadol yng Nghymru. Rydym bellach wedi dechrau symud ymlaen â'r gwaith hwn. Rydym wedi cyhoeddi rhaglen beilot o systemau dyfrio mewn ysgolion i oleuo datblygiad polisi, gyda'r ysgol gyntaf o'r fath i dderbyn cyllid yn Abertawe wedi ailagor ym mis Medi 2003 ar ôl ei hailwampio. Yr ydym yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â llosgi bwriadol, gan weithio gyda mudiadau partner, ac yn tynnu gwybodaeth o Gynlluniau Rheoli Risg Integredig lleol yr Awdurdodau Tân ac Achub. Gan ddefnyddio ein Cyllideb Diogelwch Tân Cymunedol o £5m ar gyfer 2004-05, rydym wedi cytuno ar gyllid am dair blynedd i ariannu cynllun peilot Timau Lleihau Llosgi Bwriadol, gydag un tîm yn gweithio ym mhob un o dair ardal y Gwasanaeth. Bydd pob tîm yn cynnwys rhai wedi'u secondio o'r heddlu a'r gwasanaeth tân, gyda sgiliau arbenigol mewn perthynas â chysylltiadau cymunedol, atal

[2] Fel a gynigwyd yn adroddiad y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol 'Up in Flames' ym mis Chwefror 2003.

troseddu, ac ymchwilio ac atal tân. Fe'u cefnogir gan weinyddwr fydd yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol a gweinyddol hanfodol. Bydd y timau'n targedu mannau problemus mewn perthynas â llosgi bwriadol, a bydd ganddynt hyblygrwydd i ymateb yn y mannau lle ceir yr angen mwyaf. Byddant yn ategu ac yn cefnogi ymdrechion Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol i leihau'r ardaloedd lle mae llosgi bwriadol yn achosi problemau.

2.27 Yn ystod 2004-05 yr ydym wedi clustnodi £1.25m i ariannu cynlluniau atal llosgi bwriadol yng Nghymru, ac yn ogystal â'r timau lleihau llosgi bwriadol, yr ydym wedi cyllido prosiectau sydd wedi derbyn cyhoeddusrwydd sylweddol dros y rhanbarth - megis ymgyrch radio yn anelu at atal pobl ifanc rhag cynnau tân ar laswellt a mynydd-dir, dros ardal Awdurdodau Tân ac Achub De Cymru, ac yn digwydd dros gyfnod gwyliau haf yr ysgolion. Yn ogystal, yr ydym wedi sefydlu rhaglen o grantiau bychain yn ymwneud â llosgi bwriadol, i ariannu prosiectau bychain lleol i atal llosgi bwriadol.

2.28 Mae achosion llosgi bwriadol a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu gwreiddio'n ddwfn a dim ond os bydd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd y llwyddwn i ddelio gyda nhw.

2.29 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y gall y Gwasanaeth Tân ac Achub wneud cyfraniad gwerthfawr nid yn unig i leihau llosgi bwriadol, ond i amcanion ehangach. Gall ddiffoddwyr tân fod yn fodelau rôl cadarnhaol i bobl ifanc. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub eisoes yn gwneud cryn dipyn o waith gyda phobl ifanc drwy gyfrwng amrywiol gynlluniau megis Y Criw Cryf a'r grwpiau Diffoddwyr Tân Ifanc. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth tân yng Nghymru wedi datblygu arf dysgu newydd i ddysgu diogelwch tân drwy'r cwricwlwm ABCh, er mwyn cyflwyno rhaglen unedig ar ddiogelwch tân i blant ysgol yng nghyfnodau allweddol 1 i 4.

2.30 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod gwaith o'r fath nid yn unig yn cyfrannu at leihau'r perygl o dân mewn cymunedau, ond hefyd mae'n cyfrannu at yr agenda cymdeithasol ehangach o hyrwyddo dinasyddiaeth dda a meithrin cydlyniad cymunedol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog ac yn cefnogi datblygiad pellach y gwaith hwn.

2.31 Mae Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Tân ac Achub, gan weithio gyda'r heddlu, awdurdodau lleol ac eraill mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, i ganfod problemau troseddu ac anrhefn yn eu hardaloedd a datblygu a gweithredu strategaeth i ddelio gyda nhw. Mae llawer iawn y gall y gwasanaeth tân ei gyfrannu i'r partneriaethau hyn. Fwy a mwy, y mae Partneriaethau Strategol Lleol (PSLl) hefyd yn cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

2.32 Gall y Gwasanaeth Tân ac Achub hefyd gyfrannu at gydlyniad cymunedol ac adnewyddu cymdogaethau mewn sawl ffordd, gan gynnwys sicrhau bod gorsafoedd tân ar gael i'w defnyddio gan bartneriaethau a'r gymuned, a thrwy weithio gyda phobl ifanc. Trwy'r Adolygiad Thematig, '*The*

*Fire and Rescue Service - Working with Young People in the Community*[3], cynhelir arolwg o'r ystod lawn o waith addysgol a gwaith ieuenctid a wneir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac mae'n cynnwys sawl enghraifft o arferion da. Gall cynlluniau hyfforddi ieuenctid a gwaith dargyfeiriol gyda phobl ifanc gynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân a lleihau galwadau ffug, ac felly y maent yn rhan bwysig o strategaeth diogelwch tân y Gwasanaeth. Gall y math yma o waith hefyd gynorthwyo i fynd i'r afael â throseddu, fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â gwella presenoldeb yn yr ysgol a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc.

2.33 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub ddefnyddio'r cyfle a ddaw yn sgil eu haelodaeth o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddatblygu atebion lleol i broblemau lleol - er enghraifft cynnau tân yn fwriadol, galwadau ffug a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Rheoliadau Adeiladu**

2.34 Amcan yr agweddau ar ddiogelwch tân (Rhan B) yn y Rheoliadau Adeiladu yw sicrhau y gwneir darpariaeth resymol ar gyfer iechyd a diogelwch pobl, gan gynnwys diffoddwyr tân, yn ac o gwmpas adeiladau. Nid yw Rheoliadau Adeiladu wedi'u datganoli i Lywodraeth y Cynulliad, er bod Llywodraeth y Cynulliad yn enwebu cynrychiolwyr Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Adeiladu ac yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiad rheoliadau lle y bônt yn cael effaith ar bolisïau'r Cynulliad.

2.35 Mae'r rheoliadau'n berthnasol ble bynnag y gwneir 'gwaith adeiladu' yng Nghymru a Lloegr, sef adeiladu, ymestyn neu addasu adeilad, fel arfer. Tra nad yw'r rheoliadau'n cynnwys diogelu eiddo, na chyflwr y stoc presennol o adeiladau, maent yn darparu mecanwaith ar gyfer 'dylunio' diogelwch tân yn gynyddol i mewn i'r amgylchedd adeiledig. I gefnogi'r system reoliadol hon, rydym yn cyhoeddi arweiniad ar ffurf Dogfen Gymeradwy B. Cyhoeddwyd fersiwn cyfredol fwy neu lai cyflawn o hon yn 2000, er i welliannau a ddeilliodd o gytgord gydag Ewrop gael eu cyhoeddi mewn atodiad yn 2002, gan ddod i rym ar 1 Mawrth 2003[4].

2.36 Yn gynnar yn 2004, dechreuodd Llywodraeth y DU ar adolygiad sylfaenol o agweddau diogelwch tân y Rheoliadau Adeiladu a Dogfen Gymeradwy B. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried diogelwch tân mewn pob math o adeiladau, gan gynnwys eiddo preswyl, ysgolion a warysau, a bydd yn tynnu ar ganfyddiadau ymchwil a phrofiad diweddar. Fel rhan o'r adolygiad eang, byddwn yn targedu darpariaeth mesurau diogelwch tân mewn adeiladau newydd a rhai wedi'u haddasu, lle yr ystyrir bod pobl yn fwyaf hawdd eu niweidio. Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i wella diogelwch tân drwy bob dull rhesymol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r safbwynt hwn a byddwn felly'n ystyried yn ofalus y rôl y gall systemau dyfrio eu chwarae fel rhan o becyn o fesurau y gellir eu darparu mewn adeiladau. Rhagwelir

---

[3] Arolygiaeth Gwasanaeth Tân EM/Arolygiaeth Gwasanaeth Tân EM ar gyfer yr Alban: The Fire and Rescue Service – Working with Young People in the Community (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2003)

[4] Mae fersiwn cyfun o'r Ddogfen Gymeradwy ar gael yn: www.odpm.gov.uk/approved-documents.

cyhoeddi papur ymgynghori ar newidiadau arfaethedig, ynghyd ag Asesiad Effaith Rheoliadol drafft, yng Ngwanwyn 2005.

2.37 Mae'r broses o ddylunio diogelwch tân i mewn i adeiladau yn dibynnu ar gynnal a datblygu cydweithrediad clos rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub a'u rhanddeiliaid, megis cyrff rheoli adeiladu. Dylai awdurdodau barhau i roi cyngor i'r cyrff hyn ar a ydyw'r mesurau y bwriedir eu cymryd yn ymddangos yn ddigonol i ddarparu lefel resymol o ddiogelwch tân. Mae SDBW yn cyhoeddi arweiniad ar ymgynghori[5]. Yr ydym wedi dechrau adolygu'r ddogfen bwysig hon yn ddiweddar. Yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid, nod SDBW yw cyhoeddi fersiwn diwygiedig i gyd-fynd â gweithredu'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yn 2005.

**Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio**

2.38 Mae'n fwriad gan Llywodraeth y DU ddiwygio'r ddeddfwriaeth diogelwch tân yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys dileu'r gofyniad i fod â thystysgrif tân. Bydd y cyfrifoldeb dros ddiogelwch tân mewn adeiladau annomestig yn gorwedd gyda'r person sy'n gyfrifol am yr eiddo. Bydd yn rhaid i'r person hwnnw asesu'r risg o ran y lle ei hun a'r gweithgareddau ynddo, gweithredu unrhyw fesurau diogelwch tân sy'n rhesymol ac angenrheidiol i leihau'r risgiau a nodir, a gwarchod pawb sy'n defnyddio'r eiddo rhag y risgiau sy'n weddill. Gorfodir y gofynion hyn yn bennaf gan yr Awdurdodau Tân ac Achub er y gall awdurdodau eraill orfodi gofynion mewn sefyllfaoedd penodol neilltuol, er enghraifft yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch ar gyfer y diwydiant niwclear.

2.39 Mae cynigion Llywodraeth y DU, a gyflwynwyd i'r Senedd ar 10 Mai 2004 ar ffurf Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol drafft yn ategu'r newid pwyslais yn rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub, i fod yn ataliol, lle y maent yn gyfrifol am sicrhau diogelwch y cyhoedd drwy fonitro cydymffurfiaeth 'personau cyfrifol' â'r gyfraith, a, lle y bo'n briodol, gorfodi gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Rhaid i strategaethau Awdurdod i orfodi deddfwriaeth diogelwch tân ffurfio rhan o'i strategaeth gyffredinol i ddiogelu'i gymuned, yn unol â'r manylion yn y Cynllun Rheoli Risg Integredig.

2.40 Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub – wrth baratoi eu rhaglenni gorfodi – roi blaenoriaeth i arolygu llefydd sydd, yn achos tân, yn cyflwyno perygl sylweddol i fywyd[6]. Bydd hyn yn gwella ar y dull presennol o arolygu lle rhoddir blaenoriaeth i adeiladau sydd angen tystysgrif o dan Ddeddf Rhagofalon Tân 1971. Cyhoeddwyd canllawiau pellach ar orfodaeth ar sail risg ym mis Ionawr 2004 gan SDBW ar ffurf Cylchlythyr 29, Deddf Rhagofalon Tân, a Nodyn Cyfarwyddyd 4 CRhRI[7].

**Adeiladau'r Goron**

---

[5] Building Regulations and Fire Safety - Procedural Guidance (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog Chwefror 2001). Gweler: www.odpm.gov.uk/buildingregsfiresafety

[6] Yn ôl y Ddeddf Rhagofalon Tân, Cylchlythyr 28, Atodiad 28/2, paragraff 59, dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried eu dull o ymdrin â gorfodi.

[7] Gweler: www.odpm.gov.uk/irmp

2.41 Mae Arolygwyr Tân y Goron yn gorfodi deddfwriaeth diogelwch tân yn Adeiladau'r Goron ac yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ddiogelwch tân. Dywed Llywodraeth y DU y bydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r ffocws ar atal trwy barhau i annog ymddygiad diogel yn Adeiladau'r Goron. Yn ôl y Datganiad Strategaeth *Adfywio Iechyd a Diogelwch*[8] a gyhoeddwyd ym Mehefin 2000: 'Bydd Llywodraeth y DU yn chwilio am gyfle deddfwriaethol, pan fydd amser Seneddol yn caniatáu, i ddileu eithriad y Goron o orfodaeth iechyd a diogelwch statudol'. Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch i chwilio am y ffordd orau o gyflawni hyn trwy fynd i'r afael gyda'i gilydd â iechyd a diogelwch a deddfwriaeth diogelwch tân. Yn y cyfamser, datgan Llywodraeth y DU ei bod yn parhau'n ymroddedig i sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda gofynion y gyfraith iechyd a diogelwch ac arferion gorau.

2.42 Bydd Grŵp Arolygu Adeiladau'r Goron yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Tân ac Achub lleol, gan fod ganddynt ill dau ddiddordeb yn y risg a gyflwynir gan adeiladau. Mae'r Grŵp Arolygu yn gorfodi deddfwriaeth ac, i oleuo eu blaenoriaethau risg, yn elwa o wybodaeth a gesglir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub tra'n ymateb i ddigwyddiadau argyfwng. Mae angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub gael gafael ar wybodaeth i oleuo eu cynlluniau rheoli risg lleol ac i oleuo strategaethau ymyrryd diffoddwyr tân.

2.43 Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub fod yn ymwybodol o'r cyfraniad y gall Arolygwyr y Goron ei wneud gyda chyflawni nodau ac amcanion eu Cynlluniau Rheoli Risg Integredig, dylent ymgynghori gydag Arolygwyr y Goron ar eu Cynlluniau a gweithio'n agos gyda nhw lle bo hynny'n briodol.

[8] Gweler: www.hse.gov.uk/revitalising/strategy.pdf

## Pennod 3: Gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol

3.1 Roedd y bennod flaenorol yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu atebion lleol i anghenion lleol. Er hynny, mae rhai sialensiau lle nad yw Awdurdodau Tân ac Achub, ar eu pennau eu hunain, yn gallu darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'w hateb. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd arbenigol fel ymateb i derfysgaeth, a gwasanaethau fel hyfforddiant a chaffael lle gallai cydweithredu roi manteision effeithlonrwydd sylweddol.

3.2 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i ddull Cymru gyfan lle mai dyma'r lefel fwyaf priodol. Er i ni ddweud nad ydym yn gweld yr angen am ranbartholi llawn fel a fwriedir ar gyfer Lloegr, gan y disgwylir i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru gydweithredu a gweithio gyda'u cyd-awdurdodau y tu allan i Gymru i sicrhau gwelliannau yn nhermau caffael, ayb.

3.3 Mae'r Gwasanaeth Tân yng Nghymru eisoes yn brofiadol o ran gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin. Ceir enghreifftiau o hyn yn eu gwaith gyda Llywodraeth y Cynulliad ar y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol ac ar weithredu argymhellion dau adroddiad y Gweithgor 'Wired for Safety' a 'Up in Flames', a'r bartneriaeth rhwng Awdurdodau a'r Cynulliad i sefydlu Atal Tân Cymru i symud ymlaen gydag agweddau ar ddiogelwch tân cymunedol trwy Gymru gyfan.

3.4 Hefyd, yng Nghymru mae gwaith wedi'i wneud ar gydweithredu a chydweithio rhwng y gwasanaethau brys, hyn yn deillio o 'Shared Ambitions – for a Safer and Healthier Community' a gynhyrchwyd yn genedlaethol gan y tri gwasanaeth brys yn 2001. Roedd y ddogfen yn gwneud nifer o argymhellion gyda'r bwriad o hwyluso mwy o gydweithrediad, cydweithio a phartneriaeth, ac fe gydiwyd ynddynt gan Gyd-weithgor Cymru y Gwasanaethau Brys (yn cynnwys prif swyddogion y tri gwasanaeth brys a gwylwyr y glannau) yn Chwefror 2003, a gytunodd i edrych ar y potensial ar gyfer cydweithredu a chydweithio pellach er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn well. Ar ôl cyfweld pob un o aelodau'r Cyd-weithgor, rhoddwyd cyfres bellach o argymhellion gerbron y Cyd-weithgor yn ystod Gorffennaf 2003. Trafodai'r rhain faterion fel cydweithredu mewn ystafelloedd rheoli; ystâd; hyfforddiant; caffael; a'r cynllun cyd-ymateb. Yng ngoleuni'r gwaith hwn, mae aelodau'r Cyd-weithgor wedi sefydlu bwrdd gan ychwanegu Cadeiryddion Awdurdodau'r Heddlu, Awdurdodau Tân a'r Gwasanaeth Ambiwlans dros Gymru. Mae'r bwrdd yn goruchwylio gwaith gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau yn well trwy gydweithredu a chydweithio, a'r meysydd blaenoriaeth cyntaf yw astudiaeth dichonoldeb i iechyd galwedigaethol, ac arfarniad o'r gofynion ystâd presennol ac i'r dyfodol.

**Ystafelloedd Rheoli**

Yn ôl gwaith a gomisiynwyd gan Llywodraeth y DU a wnaed gan ymgynghorwyr annibynnol[9] yn 2001, roedd patrwm presennol ystafelloedd rheoli yn ddrud ac aneffeithlon. Yn ôl adroddiad wedyn gan Arolygiaeth Gwasanaeth Tân Ei Mawrhydi yn 2003[10], roedd proses adolygu Gwerth Gorau wedi'i ysgogi o'r canol wedi methu â gwella'r sefyllfa. Gwnaed gwaith pellach yn 2003[11] i adolygu'r hyn a ddarperid gan ystafelloedd rheoli cenedlaethol yng ngoleuni Medi'r 11eg 2001, a phrofiad ystafelloedd rheoli ar y cyd yn ystod anghydfod tâl y diffoddwyr tân. Atgyfnerthodd hyn y casgliad bod angen ystafelloedd rheoli tân ac achub rhanbarthol yn Lloegr i gryfhau cadernid y gwasanaeth ac y byddai'n sicrhau arbedion helaeth.

3.6 Ers cyhoeddi adroddiad Mott MacDonald, mae'r casgliad y dylai fod gan Gymru un ystafell reoli fel rhan o gyfres integredig o ystafelloedd rheoli rhanbarthol yn fater bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Barn y Cynulliad yw bod y cyd-destun Cymreig yn wahanol i un Lloegr. Ar ôl ad-drefnu yn 1996, a welodd wyth o awdurdodau tân blaenorol yn lleihau i'r tri presennol, ni welwn y ddadl dros gyfuno pellach ac mae angen ystyried ein cynlluniau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt, ymhellach. Er hynny, rydym am i'r Awdurdodau Tân ac Achub ystyried partneriaeth tymor hirach a threfniadau cydweithredu sy'n gwella effeithiolrwydd gweithredol. Dylai hyn gynnwys ystyried cyfleoedd i gydweithio gyda'r gwasanaethau brys eraill lle mae'n gwneud synnwyr amlwg o ran gweithredu'n effeithiol a gwerth gorau i bawb.

3.7 Eisoes, mae sawl trefniant rhannu adeilad wedi eu cyflwyno neu ar fin eu cwblhau, yng nghyswllt un neu fwy o'r tri gwasanaeth brys. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau tân a heddlu ar y cyd yng Nghrymych a Llandeilo, gyda thrafodaethau'n parhau ar drefniadau ar y cyd tebyg yn Aberystwyth ac Aberteifi. Mae edrych ar gyfleoedd pellach i'r Awdurdodau Tân ac Achub allu cydweithredu yn y ganolfan gyfathrebu newydd sy'n cael ei datblygu gan Awdurdod Heddlu Dyfed Powys yn ei Bencadlys yng Nghaerfyrddin, a fydd yn gartref nid yn unig i wasanaeth rheoli'r Heddlu ond hefyd yn ganolfan reoli ranbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru i Ymddiriedolaeth Ambiwlans GIG Cymru, yn arwydd clir arall o ddymuniad y tri gwasanaeth i weithio gyda'i gilydd er lles gorau ein cymunedau.

3.8 Nid systemau technegol yn unig yw ystafelloedd rheoli; maen nhw'n dibynnu ar y bobl sy'n eu rhedeg a byddwn yn disgwyl i staff yr ystafell reoli fod wedi eu hyfforddi i'r un safonau cenedlaethol a bod yn hyddysg mewn rolau a gytunir arnynt yn genedlaethol, gan ystyried y System Datblygiad Personol Integredig fel y'i cymhwysir i Staff Ystafelloedd Rheoli.. Dylai Awdurdodau Tân ac Achub geisio cytuno gyda Llywodraeth y Cynulliad ar y trefniadau i reoli a

[9] Mott MacDonald: The Future of Fire Service Control Rooms and Communications in England and Wales (Y Swyddfa Gartref 2001).
[10] Arolygiaeth Gwasanaeth Tân EM: Analysis of the Best Value Reviews of Control and Communications (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog Tachwedd 2003).
[11] Mott MacDonald: Fersiwn diweddaredig o The Future of Fire Service Control Rooms in England and Wales (2003)

chynnal yr ystafell reoli yn eu hardal a chydymffurfio gyda phrotocolau cenedlaethol ar rolau a hyfforddiant staff, a gofynion cadernid ac wrth gefn.

## Prynu

3.9 Roedd adroddiad y Comisiwn Archwilio *In the Line of Fire*[12] yn tynnu sylw at y ffaith fod angen mwy o gydweithrediad rhwng Awdurdodau Tân ac Achub ar brynu offer a gwell effeithlonrwydd gyda rheoli pryniannau. Yn 2001-02[13], roedd yn statudol ofynnol ar i Awdurdodau adolygu eu trefniadau caffael, a chefnogwyd hyn gan ganllawiau'r Comisiwn Archwilio[14]. Daeth adolygiad gan Arolygiaeth Gwasanaeth Tân Ei Mawrhydi[15] i'r casgliad nad oedd adolygiad Gwerth Gorau canolog wedi gwella'r sefyllfa o ran sicrhau mwy o effeithlonrwydd.

3.10 Daeth ymchwil a wnaed ar ran SDBW gan Cap Gemini Ernst a Young a'r Asiantaeth Gwella a Datblygu i'r casgliad mai'r peth gorau fyddai i waith caffael arbenigol ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub ddigwydd yn genedlaethol, ac y dylid sefydlu sefydliad priodol i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'r casgliad hwn yn cefnogi gwaith blaenorol gan y Comisiwn Archwilio sy'n cefnogi safonau a manylebau cenedlaethol lle bo'n briodol. Trwy drefniadau prynu arbenigol yn ganolog a phrynu'n rhanbarthol gellid datblygu'r math o arbenigedd caffael y mae Awdurdodau Tân ac Achub unigol yn ei chael yn anodd ei ddatblygu na chael gafael arno, a bydd yn arwain at fanteision yn deillio o brynu'n gyfunol gan awdurdodau. Mae'r prosiect dillad integredig yn un enghraifft o sut y gall prynu ar draws y gwasanaeth leihau'r costau i Awdurdodau Tân ac Achub unigol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i'r prosiect hwn, yn amodol ar egluro'r goblygiadau ariannol a'r manteision i'r gwasanaeth yng Nghymru.

3.11 Mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid, mae Llywodraeth y DU, drwy gyfrwng arbenigwyr wedi adolygu'r gwaith a wnaed hyd yma ar strategaeth genedlaethol ar gyfer caffael i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Cyhoeddwyd strategaeth gaffael ddrafft ar gyfer ymgynghori arni rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2004. Caiff y strategaeth lawn ei chyhoeddi erbyn Ebrill 2005 gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

3.12 Mae'r Cynulliad yn gweld gwerth yn y strategaeth er nad yw eto wedi asesu'r goblygiadau yn llawn i Gymru. Bydd felly angen ystyried yn llawn y materion hynny sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru cyn ymrwymo i'r prosiect. Bydd yn ystyried gweithgarwch sydd eisoes ar waith trwy Grŵp Caffael Cymru a bwrdd rhaglen Cyd-weithgor Cymru y Gwasanaethau Brys; rhoi trefn ar gylchoedd caffael; bod yr enillion potensial yn nhermau cost, diogelwch a safonau corfforaethol yn gyraeddadwy; a

[12] Y Comisiwn Archwilio: *In the Line of Fire* (Y Comisiwn Archwilio 1995).
[13] Gorchymyn adolygu a chynlluniau perfformiad (Gwerth Gorau) llywodraeth leol 1999.
[14] Canllawiau gan y Comisiwn Archwilio: *A uniform approach – a study of fire service procurement* (Y Comisiwn Archwilio 2001).
[15] Arolygiaeth Gwasanaeth Tân EM: Analysis of the Best Value Review of Procurement: Adroddiad Terfynol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2003).

manteision y gellir eu hadnabod yn nhermau cost, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth gefnogi caffael ar y cyd ymysg y Gwasanaeth yng Nghymru.

3.13 Rhoddodd Cylchlythyr y Gwasanaeth Tân SDBW 11/2004[16] gyngor ar y trefniadau y dylai Awdurdodau Tân ac Achub eu mabwysiadu cyn llunio contractau newydd am offer gweithredu mawr, gyda'r nod o unioni dyddiadau terfynu contractau gyda'r rhai a ragwelir yn y strategaeth genedlaethol. Os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mabwysiadu'r strategaeth yng Nghymru, dylai Awdurdodau Tân ac Achub weithredu'r strategaeth gaffael genedlaethol.

[16] Cyhoeddwyd yn Ebrill 2004.

## Pennod 4: Ymateb yn effeithiol

4.1 Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn haeddu ei enw da am ddarparu ymateb effeithiol a phroffesiynol i danau a digwyddiadau eraill.

4.2 Er y dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub, yn y dyfodol, roi mwy o bwyslais ar atal tanau rhag digwydd yn y lle cyntaf, nid yw'r angen am ymateb effeithiol i ddigwyddiadau sydd yn digwydd ddim llai. Bydd angen i Awdurdodau Tân ac Achub ddatblygu eu gallu i ymateb i sialensiau newydd megis terfysgaeth yn unol ag anghenion rhaglen genedlaethol y 'Dimensiwn Newydd'.

4.3 Y man cychwyn yw sicrhau nad oes cynnydd yn y risg a wynebir gan bobl Cymru mewn perthynas â thân, a lle y bo'n bosibl, bod yna leihad yn y risgy maent yn ei hwynebu. Rhaid i'r Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau yr anfonir lefelau priodol o adnoddau i ymateb i ddigwyddiadau, o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt, er mwyn cyflawni Safonau Cyflwyno Gwasanaeth arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y Safonau Cyflwyno Gwasanaeth hyn yn annibynnol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ac yn destun cyfarwyddyd manwl a gyhoeddir yn ystod 2005. Mae'n bosib y bydd y Cynulliad yn ystyried ymgorffori'r cyfarwyddyd mewn adolygiad o'r Fframwaith hon.

Dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau y rhoddir ymateb proffesiynol ac effeithiol i'r ystod o ddigwyddiadau y byddant, o bosib, yn eu hwynebu, gan gydweithio fel y bo'n briodol. Mae hyn yn golygu sicrhau:

- bod staff wedi eu hyfforddi i safonau proffesiynol, yn gyfarwydd â'r risgiau ac yn deall cysyniad risg a lleihau risg;
- bod systemau rheoli a gorchymyn effeithiol yn eu lle;
- bod gan reolwyr digwyddiadau y profiad a'r hyfforddiant priodol; a
- bod yr offer iawn ar gael ac y cefnogir staff yn llawn gydag adnoddau priodol i ddelio'n effeithiol gyda digwyddiadau, o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt, i sicrhau diogelwch y rhai sy'n ymgymryd â'r tasgau.

4.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud yng Nghymru, gan greu budd i'r cyhoedd. Mae caffael peiriannau ar y cyd, darparu System Datblygiad Personol Integredig a chanolfannau asesu yn esiamplau. Dylai gweithgaredd pellach ar gefnogaeth arbenigol, megis ymchwilio i losgi bwriadol, rhannu ystadau, hyfforddiant a gwasanaethau 'ystafell gefn' barhau.

### Rheoli Iechyd a Diogelwch

4.5 Mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn berthnasol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae angen gofalu am iechyd a diogelwch pob aelod o staff ac eraill sydd mewn perygl trwy eu gwaith, yn enwedig wrth ddelio gyda digwyddiadau argyfwng.

4.6 Gan amlaf, mae rheolwyr tân ac achub wedi cynnal ac yn aml wedi cynyddu effeithiolrwydd gweithredu criwiau tân, trwy roi'r egwyddorion a'r arferion sy'n gysylltiedig â chyfraith iechyd a diogelwch ar waith.

4.7 Mae'n bwysig rhannu arferion da rhwng y gwasanaeth tân ac achub, rheolwyr a staff rheng flaen. Bydd Arolygiaeth Gwasanaeth Tân Ei Mawrhydi, ynghyd â'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch a Chymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CPST) yn cydweithio'n barhaus i ddarparu arweiniad cenedlaethol a chydlynol wrth greu canllawiau iechyd a diogelwch. Mae hyn yn arbennig o briodol yn achos risgiau cyffredinol ac wrth ganfod atebion cyffredin i sialensiau. Gan gydweithio â SDBW, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn asesu risg y Llawlyfr Hyfforddiant Gweithredol a Datblygu yn 2005, yn diwygio canllawiau ar asesu risg cyffredinol a deinamig yn 2005; ac yn gwella ansawdd data ar ddamweiniau ac anafiadau a'i drefniadau casglu yn Hydref 2005.

4.8 Mae'r Grŵp Tasg cenedlaethol ar Iechyd a Diogelwch, dan gadeiryddiaeth Arolygiaeth Gwasanaeth Tân EM, yn cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd yn erbyn cynllun busnes cytunedig. Mae'r Grŵp yn anelu at ddatblygu polisïau a strategaethau i gefnogi rheolaeth iechyd a diogelwch yn y Gwasanaeth Tân ac Achub; sicrhau bod polisïau o'r fath yn cefnogi gofynion cymhwysedd cenedlaethol datblygu'r gweithlu; a sicrhau bod y risgiau sy'n deillio o weithgareddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu rheoli'n briodol. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau sicrhau bod y polisïau a'r strategaethau yn cael eu mabwysiadu hefyd ar draws Cymru.

4.9 Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru drefniadau strwythuredig i rannu arferion da ym maes Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n gydweithredol ac adolygiadau o drefniadau Iechyd a Diogelwch ei gilydd. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi derbyn cydnabyddiaeth am eu gwelliannau ym maes Iechyd a Diogelwch gan gyrff annibynnol. Dylid adeiladu ar yr arferion da hyn a dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithredu.

**Defnyddio Adnoddau**

4.10 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod yna le i wella effeithlonrwydd y Gwasanaeth Tân wrth ymateb i ddigwyddiadau tra'n dal i gadw at y safonau uchaf un.

4.11 Yn draddodiadol, roedd peiriannau pwmpio gyda nifer benodol o ddiffoddwyr tân a swyddogion yn cynnig ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau argyfwng. Weithiau, roedd cerbydau arbenigol fel cludwyr dŵr neu offer o'r awyr yn cefnogi'r ymateb hwn.

4.12 Gall yr ymateb gor-benodol ac 'unfath ym mhob sefyllfa' hwn fod yn orymateb, yn enwedig o ystyried galwadau tric, signalau gan systemau larwm tân awtomatig a thanau sy'n amlwg yn rhai bach. Gall hefyd olygu bod llai o adnoddau ar gael ar gyfer digwyddiadau lle mae'r perygl i fywyd ac o anafiadau fwyaf – yn aml yn y cartref. Fodd bynnag, y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod larymau tân yn rhoi rhybudd cynnar o dân; rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ystyried canlyniadau unrhyw benderfyniadau

ynglŷn â phresenoldeb, yn enwedig mewn adeiladau lle y ceir mwy o berygl i fywyd.

4.13 Ym mis Ebrill 2004, mewn cydweithrediad â CPST a Chymdeithas Brydeinig Systemau Diogelwch Tân, cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog Ganllawiau ar Ostwng y Nifer o Alwadau Ffug o Systemau Canfod Tân a Larymau Tân[17]. Anelir y canllawiau hyn at berchnogion a defnyddwyr systemau o'r fath. Oherwydd cyflwyno Cynlluniau Rheoli Risg Integredig a dileu'r safonau a argymhellwyd yn genedlaethol ar ymateb i dân a'u canllawiau cysylltiedig, bydd gan awdurdodau fwy o hyblygrwydd yn y dyfodol wrth benderfynu ar eu hymateb i larymau tân awtomatig.. Mae systemau gwybodaeth modern a deallus yn golygu bod modd asesu risgiau yn fwy effeithiol i roi ymateb mwy priodol sydd wedi'i dargedu'n well. Wrth wneud penderfyniad ar bresenoldeb yn y digwyddiadau hyn, dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub:

- roi sylw i Ganllawiau SDBW ar Ostwng y Nifer o Alwadau Ffug o Systemau Canfod Tân a Larymau Tân;
- lle bo'n briodol, weithio gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill a gwasanaethau brys eraill, gweithredu i leihau'r nifer o alwadau tric a signalau dieisiau o larymau tân awtomatig; a
- logio'r galwyr a'r adeiladau sy'n cynhyrchu'r galw mwyaf, asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw a phenderfynu ar y camau i sicrhau gwelliannau, a allai gynnwys mwy o waith atal tân neu newid lefel yr ymateb.

4.14 Nod yr ymateb i argyfwng yw lleihau marwolaethau a nifer a difrifoldeb anafiadau. Os gellir gwella canlyniadau trwy addasu gwasanaethau neu weithio gyda darparwyr gwasanaeth eraill, dylid mynd ati'n ddiymdroi. Er enghraifft, gallai defnyddio offer diffibrilio achub bywydau pobl sy'n cael trawiad ar y galon. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi bod yn gweithredu cynlluniau Ymatebydd Cyntaf mewn rhannau o'i ardaloedd gwledig ers 1998. Partneriaeth yw'r cynlluniau rhwng y Gwasanaethau Tân ac Ambiwlans gan roi gwasanaeth achub bywyd gwell i gymunedau lleol. Mae diffoddwyr tân sydd wedi eu hyfforddi i ddadebru pobl – a chyda defnyddio offer diffibrilio – yn rhoi cymorth cyntaf mewn amgylchiadau lle mae bywyd mewn perygl hyd nes bydd parafeddygon yr Ambiwlans yn cyrraedd. Ar hyn o bryd, mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu pum cynllun ac mae llefydd eraill wedi eu clustnodi i dderbyn y gwasanaeth hynod werthfawr hwn yn yr ardal. Credwn y dylid ymestyn y cynlluniau hyn i gynnwys Cymru gyfan a byddwn yn cefnogi trafodaethau rhwng Awdurdodau Tân ac Achub Cymru a'r gwasanaeth meddygol ac ambiwlans i edrych ar fanteision pellach a goblygiadau hyn, ar sail ardaloedd blaenoriaeth i ddechrau, efallai.

## Cyd-Gymorth

[17] Gweler: www.odpm.go.uk/falsealarms

4.15 Ers blynyddoedd lawer, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi rhoi cymorth trawsffiniol mewn argyfyngau sy'n gysylltiedig â thân trwy rannu criwiau ac offer tân.

4.16 Mae'n bwysig cymhwyso'r arfer da hwn ym mhob man. Ni ddylai ffiniau rhanbarthol a chenedlaethol rwystro'r Awdurdodau Tân ac Achub rhag darparu'r ymateb mwyaf effeithiol, effeithlon a chyflymaf bosibl.

4.17 Dylai'r Gwasanaeth, felly, gynllunio Cynlluniau Rheoli Risg i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod mwy o rannu adnoddau, yn enwedig, er enghraifft: gwasanaethau uwch swyddogion; peiriannau pwmpio a pheiriannau nad ydynt yn pwmpio dŵr, fel offer sy'n rhoi mynediad o'r awyr; offer a ddefnyddir i ymateb i ddamweiniau ffordd a chyda chyflenwi dŵr mewn swmp; a gwasanaeth cymorth arbenigol fel criwiau achub rhaff.

**Protocolau ar gyfer Rheoli Digwyddiadau**

4.18 Nid oes gan ddigwyddiadau tân mawr, ymosodiadau terfysgaeth neu drychinebau amgylcheddol difrifol unrhyw barch at ffiniau Awdurdod. Ychwaith, nid oes modd i un gwasanaeth brys ddelio gyda nhw ar ei ben ei hun. Yn gynyddol, maen nhw'n galw am gynllunio wedi'i gydlynu, cydweithrediad gweithredol a chydweddoldeb gyda rheoli ymateb rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub ac ymatebwyr gwasanaethau brys a difrys eraill, megis yr awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Asiantaeth Forwrol ac Arfordirol.

4.19 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub rôl gynyddol i'w chwarae gyda delio â'r digwyddiadau hyn. Mae Deddf 2004 yn rhoi sêl statudol ar rôl ehangach yr Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb i argyfyngau heb fod yn dân. Mae'r Mesur Paratoadau Sifil 2004 yn cynnwys darpariaeth lle bydd raid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub weithio gyda'r gwasanaethau brys eraill i gynhyrchu cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer digwyddiadau mawr a thrychinebus.

4.20 Mae polisïau, arferion a gweithdrefnau cyffredin ar gyfer rheoli argyfwng yn hanfodol. I sicrhau dull gweithredu cyson, dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub fabwysiadu'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodir yn Llawlyfr y Gwasanaeth Tân, Cyfrol 2: *Fire Service Operations - Incident Command (2002)*[18]. Bydd hyn yn sicrhau bod trefniadau cyffredin a rheolaeth ddiogel ac effeithiol o weithgareddau yn cael eu mabwysiadu ar draws y wlad. Bydd CFOA ac Arolygiaeth Gwasanaeth Tân EM hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddiweddaru'r Llawlyfr mewn ymateb i fygythiadau a datblygiadau newydd. Mae'r Llawlyfr, ynghyd â chyhoeddiad Swyddfa'r Cabinet, *Dealing with Disaster – 3rd Revision*[19], yn darparu templed ar gyfer hyfforddiant ac ymarferion rheolaidd rhwng gwasanaethau, a bydd yn ffurfio rhan annatod o'r hyfforddiant yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân. Bydd Coleg y Gwasanaeth Tân

[18] Llawlyfr y Gwasanaeth Tân Cyfrol 2: *Fire Service Operations – Incident Command* (SDBW 2002).
[19] Dealing with Disaster – 3rd Revision (Swyddfa'r Cabinet 2003).

hefyd yn ganolfan arbenigol mewn chwilio ac achub trefol, a thechnegau digwyddiadau argyfwng mawr cysylltiedig.

4.21 Yn unol â'r Ddeddf Paratoadau Sifil 2004, dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub, lle bo'n briodol:

- weithio gydag asiantaethau, awdurdodau a gwasanaethau brys eraill i ddatblygu cynlluniau adfer a rheoli ymateb i argyfyngau mawr, ac adolygu eu holl gynlluniau a pholisïau gweithredu presennol;
- defnyddio systemau rheoli cenedlaethol i orchymyn digwyddiadau er mwyn hwyluso gweithredu argyfwng a chyd-hyfforddiant gwasanaeth effeithiol a diogel; a
- mabwysiadu arferion da cydnabyddedig.

**Ymchwilio i Dân**

4.22 Gall ymchwilio i dân roi cipolwg amhrisiadwy ar ymddygiad tân a, thrwy hynny, rhoi tystiolaeth ddefnyddiol ar ddulliau i reoli risg yn y dyfodol.

4.23 Ychydig iawn o Awdurdodau Tân ac Achub all roi digon o adnoddau ar waith, bob amser, i sicrhau yr ymchwilir i danau'n effeithiol. Mae'r gweithgaredd hwn yn un o lawer ddylai gael eu cyflwyno'n fwy effeithiol drwy i Awdurdodau Tân ac Achub gydweithio â'i gilydd.

4.24 Gydag achosion tanau bwriadol, yr Heddlu fydd yr awdurdod arweiniol yn y pen draw. Mewn achosion eraill, bydd yr awdurdod arweiniol yn dibynnu ar yr amgylchiadau a chanlyniadau cyntaf yr ymchwiliad i'r tân. Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn rhannu'r arweinyddiaeth ar wahanol gyfnodau yn y broses ymchwilio, gyda'r asiantaeth fwyaf perthnasol yn arwain fel bo angen. Mae protocolau a memoranda cyd-ddealltwriaeth ffurfiol yn hollbwysig i sicrhau bod anghenion pob partner yn derbyn sylw. Mae Deddf 2004 yn darparu pwerau ffurfiol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub fynd i mewn i adeiladau i bwrpas ymchwilio i achosion tanau a'r rhesymau pam y bu i danau ymledu. Byddai'r pwerau hyn, a gydbwysir gan fesurau i ddiogelu'r cyhoedd, ar gyfer eu defnyddio mewn achosion lle na ellir cael caniatâd, neu y gwrthodir caniatâd i ymchwilio i dân gan y person sy'n gyfrifol am yr adeilad dan sylw.

4.25 Mae'r Fforwm Rheoli Llosgi Bwriadol, sy'n dwyn ynghyd yr heddlu, ymarferwyr tân ac achub, yswirwyr a rhanddeiliaid eraill, yn datblygu model o brotocol ar gyfer ymchwilio i danau. Fe'i cefnogir gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd ar ymchwilio i danau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Gwyddoniaeth Fforensig. Datblygir y rhain ar feini prawf yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm, a byddant ar gael ddechrau 2005. Mae'r Grŵp Safonau Galwedigaethol sy'n gyfrifol am y gwaith hwn yn cynnwys Arolygiaeth Gwasanaeth Tân EM, a Choleg y Gwasanaeth Tân, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Fforensig, a'r diwydiant yswiriant. Unwaith y cyhoeddir ef, dylai Awdurdodau Tân ac Achub

roi sylw i'r model o brotocol ar gyfer ymchwilio i danau a dylent geisio crynhoi gallu arbenigol i ymchwilio i danau, er mwyn darparu gallu effeithiol i ymateb yng Nghymru.

**Cynllunio wrth gefn ar gyfer gweithredu diwydiannol posibl yn y dyfodol**

4.26 Gan dynnu ar brofiadau'r gweithredu diwydiannol cenedlaethol, datblygwyd trefniadau newydd a mwy effeithiol o ddarparu gwasanaeth tân ac achub mewn argyfwng. Yn y dyfodol, bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn chwarae rhan sylweddol mewn darpariaethau wrth gefn, gan gynnwys cyflenwi peiriannau a chyfarpar a rhoi'r personél sydd ar gael ar waith yn effeithiol.

**Sicrhau Ansawdd ac Arferion Gorau**

4.27 Yn y dyfodol, y Comisiwn Archwilio yng Nghymru (Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2005) fydd yn gyfrifol am arolygu'r Awdurdodau Tân ac Achub trwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella (gweler pennod 9).

4.28 Bydd y Comisiwn Archwilio ac Arolygiaeth Gwasanaethau Tân EM yn canfod ac yn hyrwyddo arferion da. Bydd yr Arolygiaeth hefyd yn helpu i adnabod a datblygu arweinwyr y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol ac yn ffynhonnell gynghori ar gyngor proffesiynol a thechnegol.

4.29 Bydd y Comisiwn a'r Arolygiaeth, o bryd i'w gilydd, yn cyflawni astudiaethau cenedlaethol cydlynus i weithgareddau gwasanaeth penodol (adolygiadau thematig).

4.30 Gan fod adolygiadau thematig yn ceisio mesur cynnydd, llwyddiant a'r rhwystrau i lwyddiant unrhyw bwnc, bydd yn ddefnyddiol i'r gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru aros yn rhan o'r adolygiadau hyn, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Yn wir, gallai'r cyfle i gymharu gwahanol ddulliau o ymdrin â'r un problemau (lle maen nhw'n bodoli) brofi i fod yn hynod fuddiol. Eto i gyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod tuedd i or-arolygu yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau, ac yn dwyn adnoddau prin oddi ar ddarparu a gwella gwasanaethau pan gynhelir yr arolygiad. I osgoi hyn, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio cydweithio gyda Llywodraeth y DU i gael gwybod am y rhaglen o adolygiadau thematig er mwyn achub ar y cyfle i gynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub Cymreig lle bynnag y byddai hyn o fudd.

## Pennod 5: Cadernid a'r Dimensiwn Newydd

5.1 Diffinnir cadernid fel y gallu i reoli sialensiau aflonyddol fel ymosodiad gan derfysgwyr neu lifogydd mawr a allai arwain at neu ddiweddu mewn argyfwng.

5.2 Nod Llywodraeth y Cynulliad gyda datblygu cadernid yn y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yw sicrhau diogelwch y cyhoedd trwy gymryd camau ymarferol i leihau'r tebygolrwydd y bydd fath ddigwyddiadau yn digwydd, ac ymateb yn effeithiol a diymdroi os byddant.

### Cyfrifoldebau statudol Awdurdodau Tân ac Achub

### Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

5.3 Mae Deddf 2004 yn ymestyn dyletswyddau'r Awdurdodau Tân ac Achub i gynnwys hyrwyddo diogelwch tân ac ymateb i ddamweiniau ar y ffyrdd, yn ogystal â'u rôl draddodiadol fel diffoddwyr tân. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu pŵer i'r Cynulliad ymestyn ymhellach y dyletswyddau i ymdrin ag argyfyngau eraill. Cynhwysir y dyletswyddau arfaethedig newydd mewn gorchymyn, yn ddarostyngedig i broses ddeddfwriaethol y Cynulliad, a bydd yn rhoi swyddogaethau'r Awdurdodau Tân ac Achub ynglŷn â'r argyfyngau hynny y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt ar hyn o bryd, ond nad oes unrhyw ofyn statudol iddynt gynllunio, hyfforddi nac arfogi ar eu cyfer. Mae'n debygol felly, y bydd gofyn i'r Gwasanaeth wneud darpariaeth ar gyfer:

- cael gwared â difwynyddion cemegol, biolegol neu ymbelydrol oddi ar bobl (gan ddefnyddio'r offer diheintio torfol a ddarperir dan raglen Dimensiwn Newydd Llywodraeth y DU) a chasglu ynghyd unrhyw ddŵr a ddefnyddiwyd i gael gwared â'r fath ddifwynyddion;
- cynorthwyo asiantaethau eraill i ymdrin â digwyddiadau cemegol eraill sy'n digwydd mewn ffyrdd eraill;
- digwyddiadau sy'n golygu chwilio ac achub. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad terfysgol neu ddigwyddiad arall lle y mae potensial i bobl gael eu caethiwo, neu ble y mae angen defnyddio offer chwilio ac achub i ddod o hyd i unigolion;
- llifogydd mawr lle y mae bygythiad difrifol i iechyd neu les pobl. Er enghraifft, byddai angen diffoddwyr tân i gynorthwyo i achub pobl a ynyswyd gan lifogydd mawr, a'u cludo i ddiogelwch. Nid yw hyn yn cynnwys llifogydd llai a mwy lleol, megis prif bibell ddŵr yn torri; a
- digwyddiadau difrifol yn ymwneud â thrafnidiaeth, ar wahân i ddamweiniau ffyrdd.

5.4 Byddwn yn ymgynghori'n eang ar ein cynigion cyn gwneud unrhyw orchymyn dan y Ddeddf yn 2005.

5.5 Mae Deddf 2004 hefyd yn rhoi grym i'r Cynulliad wneud gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau ddefnyddio a chynnal unrhyw offer yn unol

â'r hyn a nodir gan y Cynulliad. Byddai hyn yn cynnwys offer diheintio torfol a chwilio ac achub a ddarperir dan y rhaglen Dimensiwn Newydd.

5.6 Pan roddir dyletswyddau newydd i Awdurdodau mewn perthynas â rhaglen y Dimensiwn Newydd, darperir adnoddau newydd drwy gytundeb â rhanddeiliaid allweddol.

**Deddf Paratoadau Sifil 2004**

5.7 Rhagwelir y bydd Rhan 1 o'r Ddeddf Paratoadau Sifil, ynghyd â'r rheoliadau a'r canllawiau, yn sefydlu fframwaith newydd i atgyfnerthu cydweithrediad rhwng y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymateb ar y rheng flaen yn lleol. Bydd hyn yn sicrhau y gallant ymdrin ag amrediad llawn o argyfyngau o ddigwyddiadau mawr lleol hyd at drychinebau. Mae'n bosib y bydd y Rheoliadau a wneir dan Ran 1 yn creu dyletswydd statudol ar ran cyrff lleol, gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub i gydweithio i ddatblygu cynlluniau wrth gefn. Byddai Awdurdodau Tân ac Achub dan ddyletswydd i weithio gyda gwasanaethau brys eraill, awdurdodau lleol ac ymatebwyr eraill ar y rheng flaen i:

- asesu'r perygl o argyfwng yn codi;
- sefydlu cynlluniau wrth gefn i ymdrin ag argyfyngau, a chynnal ymarferion i sicrhau bod modd iddynt atal ac ymateb i argyfyngau;
- sefydlu trefniadau i reoli dilyniant busnes, fe y gall awdurdod weithredu mewn argyfwng;
- rhannu gwybodaeth gydag eraill sy'n ymateb i argyfyngau yn lleol; a
- hysbysu'r cyhoedd am warchodaeth sifil er mwyn lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfyngau.

5.8 Bydd cymryd rhan yn y pedwar Fforwm Cadernid lleol yng Nghymru yn ogystal â'r fforwm cadernid yn cynorthwyo'r Awdurdodau Tân ac Achub i gyflawni'u dyletswyddau statudol dan Rhan 1 y Ddeddf.

5.9 Dan Ran 1 y Ddeddf, ni fydd modd i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau na rhoi cyfarwyddiadau yng Nghymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, megis y Gwasanaeth Tân ac Achub, heb ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni fydd y Cynulliad yn gwneud ei reoliadau ei hun dan Ran 1 y Ddeddf.

5.10 Mae Rhan 2 y Ddeddf (Pwerau mewn Argyfwng) yn ceisio rhoi sylw i amrediad llawer ehangach o amgylchiadau na'r rhai y rhoddir sylw iddynt gan y ddeddfwriaeth bresennol, sy'n dyddio'n ôl i 1920, gan adlewyrchu'r risgiau gwahanol a'r bygythiadau newydd a wynebir gennym heddiw. Mae'n ehangu diffiniad argyfwng i gynnwys digwyddiadau a sefyllfaoedd sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, neu i'r amgylchedd neu ddiogelwch y Deyrnas Unedig. Mae Rhan 2 y Ddeddf hefyd yn cynnig ystod o fesurau diogelwch yn erbyn y posibilrwydd o gamddefnydd i sicrhau, ymysg pethau eraill, y cydymffurfir â deddfwriaeth Hawliau Dynol a chraffu seneddol effeithiol.

**Cadernid yng Nghymru**

5.11 Sefydlir fframwaith ar gyfer cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gytundeb ar faterion yn ymwneud â'r Ddeddf Paratoadau Sifil. Pwrpas y cytundeb yw egluro'r swyddogaeth(au) a ragwelir, yn ymarferol, i Lywodraeth Cynulliad Cymru dan y Ddeddf, ac yn benodol, mewn perthynas ag ymdrin ag argyfwng yng Nghymru.

5.12 Ar lefel y DU sefydlwyd trefniadau cydlynu clir i sicrhau cynllunio argyfwng llwyddiannus. Yr Ysgrifennydd Cartref sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelwch a gwarchodaeth. Swyddfa'r Cabinet sy'n cydlynu datblygiad polisïau a gweithdrefnau ar gadernid ar draws y Llywodraeth ac yn ceisio canfod ac atal sialensiau aflonyddol posib. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu cydlynu ar faterion yn ymwneud â chynllunio argyfwng, ar lefel Cymru gyfan. Mae'r Cynulliad yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU ar bob mater yn ymwneud â gwarchodaeth sifil a pharodrwydd mewn argyfwng yng Nghymru.

5.13 Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub draddodiad hir o gynllunio ac ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau ar lefel leol, nad ydynt yn ymwneud â thân. Fodd bynnag, bu i ddigwyddiadau trychinebus 11 Medi 2001 newid y cylch gorchwyl ar gyfer ymdrin â therfysgaeth. Mae ymateb i ymosodiad tebyg yn y DU, neu un a fyddai'n cynnwys elfen gemegol, fiolegol, radiolegol neu niwclear (CBRN), yn gofyn am fwy na chynllunio ac ymateb yn lleol.

5.14 I gydnabod ei gyfrifoldebau swyddogaethol a'i rôl diriogaethol, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dîm yn benodol ar gyfer cefnogi cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau yng Nghymru a chysylltu â Llywodraeth y DU ar bob mater yn ymwneud â gwarchodaeth sifil a pharodrwydd mewn argyfwng. Mae'r tîm, dan arweiniad uwch swyddog yn gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau ymateb lleol i roi sylw i faterion gwarchodaeth sifil ar raddfa fawr neu dros ardal eang yng Nghymru. Mae'r tîm hefyd yn hwyluso cyfathrebu rhwng Llywodraeth y DU ac ymatebwyr lleol yng Nghymru; yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i Fforwm Cadernid Cymru a Gweithgor Argyfyngau Cymru; ac yn cydweithio â thimau cadernid rhanbarthol yn Lloegr i sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle ar draws ffiniau.

5.15 Y prif fecanwaith ar gyfer cydweithio cenedlaethol rhwng gwahanol asiantaethau yw Fforwm Cadernid Cymru. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn chwarterol dan gadeiryddiaeth un ai'r Prif Weinidog neu'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n darparu cyngor strategol aml-asiantaethol ar warchodaeth sifil a chynllunio argyfwng gan alluogi Prif Swyddogion i drafod materion strategol yn ymwneud â pharodrwydd mewn argyfwng yng Nghymru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n dwyn ynghyd asiantaethau llywodraeth ganolog, y Lluoedd Arfog a chynrychiolwyr o blith ymatebwyr lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys ac awdurdodau lleol. Nid yw'r fforwm yn gorff statudol: nid oes ganddo bwerau i gyfarwyddo'i aelodau. Mae'r fforwm yn darparu ar gyfer

cynrychiolaeth uwch o blith Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, y lluoedd arfog, Asiantaeth yr Amgylchedd, GIG Cymru, yr Asiantaeth Forwrol ac Arfordirol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio a pharatoi ac mae'n gweithredu mewn dull tebyg i'r fforymau cadernid rhanbarthol yn Lloegr.

5.16 Pe digwyddai argyfwng ar raddfa fwy, gellid ffurfio pwyllgor ar wahân, Pwyllgor Paratoadau Sifil Cymru, a'i rôl fyddai cynorthwyo i gydlynu'r ymateb drwy Gymru gyfan i ddigwyddiad oedd yn drech nag ymatebwyr lleol, neu a oedd yn cael effaith ar ardal eang. Byddai'r Rheoliadau sy'n deillio o'r Ddeddf Paratoadau Sifil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Uwch Weinidog o Lywodraeth y DU benodi Cydlynydd Argyfwng Cymru, i gynorthwyo i gydlynu gweithgareddau dan unrhyw reoliadau a wneir mewn ymateb i argyfwng. Bydd rôl y Cydlynydd Argyfwng yn debyg i un y Cydlynydd Rhanbarthol Enwebedig a benodwyd ar gyfer pob rhan neu ranbarth o Loegr y mae'r rheoliadau'n berthnasol iddynt.

5.17 Mae Gweithgor Argyfyngau Cymru yn darparu modd i bob mudiad ymateb lleol yng Nghymru i gyfrannu, ar lefel swyddogol, syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gwella trefniadau cynllunio argyfwng yng Nghymru. Prif Swyddogaeth y Grŵp yw cefnogi Fforwm Cadernid Cymru, gan hwyluso cydweithio rhwng ymatebwyr lleol yng Nghymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cadeirio'r Grŵp, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth uwch o blith awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, y lluoedd arfog, Asiantaeth yr Amgylchedd, GIG Cymru, yr Asiantaeth Forwrol ac Arfordirol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r fforymau cadernid lleol yng Nghymru.

5.18 Bydd y strwythurau hyn yn darparu llwyfan ar gyfer cydlynu'r cynllunio a'r ymateb mewn perthynas â pharatoadau sifil ar lefel Cymru gyfan. Byddant yn darparu swyddogaethau cydlynu a hwyluso ar gyfer digwyddiad aflonyddol, tra – dan gyfarwyddyd – y byddai unrhyw ymateb yn parhau, ar y cyfan, i fod yn nwylo ymatebwyr lleol.

5.19 I hwyluso cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng Cymru ac ardaloedd ar y ffin yn Lloegr, ffurfiwyd grŵp sy'n dwyn ynghyd Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r timau cadernid rhanbarthol o swyddfeydd y llywodraeth ar gyfer y De Orllewin, Gorllewin Canoldir Lloegr a'r Gogledd Orllewin. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn chwarterol i drafod materion o ddiddordeb iddynt oll ym maes paratoadau sifil, ac i helpu i feithrin cysylltiadau ar lefel leol a rhanbarthol.

5.20 Bydd y ddyletswydd i ymatebwyr lleol gydweithio yn golygu y sefydlir fforymau cadernid lleol ym mhob un o ardaloedd heddlu Cymru. Bydd sefydlu, trefn a phroses y fforymau hyn yn fater ar gyfer trafodaeth rhwng mudiadau ymateb lleol, yn bennaf. Mae fforymau o'r fath eisoes yn bodoli ar sail wirfoddol yng Nghymru ym mhedair ardal yr heddlu, dan wahanol deitlau.

5.21 Mae Trefniadau Cydlynu Argyfyngau Cenedlaethol Cymru yn nodi'r strwythurau ar gyfer integreiddio ar lefel Cymru gyfan ar gyfer ymateb i argyfwng dros ardal eang yng Nghymru. Mae'r trefniadau, a gynhyrchwyd ac a gytunwyd gan Weithgor Argyfyngau Cymru, yn adlewyrchu'r egwyddorion a

gynhwysir yn *Dealing with Disaster*, ac yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli argyfwng cenedlaethol yng Nghymru. Mae’r trefniadau hyn yn diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau asiantaethau a phwyllgorau ar lefel Cymru gyfan ac ar lefel leol. Ni fyddent yn berthnasol ond mewn argyfwng dros ardal eang, ac ni fyddent yn ymyrryd ag ymateb gweithredol aml-asiantaethol i argyfwng lleol. Mae natur gyffredinol y trefniadau yn darparu hyblygrwydd a gellir eu haddasu i ffurfio sail i ymateb i unrhyw argyfwng yn effeithio ar Gymru. Bu’r trefniadau mewn bodolaeth ers rhai blynyddoedd; nid ydynt yn rhwymo neb, ac fe’u sefydlwyd gyda chytundeb pob un o’r partïon. Bydd angen eu diwygio yng ngoleuni’r Ddeddf Paratoadau Sifil a bod yn gyson gyda’r trefniadau sydd i’w sefydlu dan y cytundeb.

**Y Dimensiwn Newydd**

5.22 I ddatblygu cadernid yn sgîl yr ymosodiadau ar Fedi’r 11eg 2001, lansiodd Llywodraeth y DU raglen ‘Y Dimensiwn Newydd’. Nod y rhaglen hon yw sicrhau bod Awdurdodau Tân ac Achub wedi eu hyfforddi a’u harfogi’n ddigonol i ddelio’n ddiogel ac effeithiol gyda digwyddiadau terfysgaeth cemegol, biolegol, ymbelydrol neu niwclear a chonfensiynol ar raddfa genedlaethol. Buddsoddodd Llywodraeth y DU £56 miliwn i brynu cyfarpar ar gyfer rhan un rhaglen Y Dimensiwn Newydd, sy'n cynnwys saith o Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau (UYDd) pwrpasol yn cynnwys cyfleusterau diheintio torfol yng Nghymru. Yn ogystal, darparodd rhaglen y Dimensiwn Newydd siwtiau gwarchodol ar gyfer diffoddwyr tân a chyflwynodd ddulliau gwell i chwilio ac achub ar gyfer Timau Tân Chwilio ac Achub yn y DU.

5.23 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu Rhaglen y Dimensiwn Newydd yng Nghymru. Bydd hyn yn fodd i ategu’r buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth y DU wrth ddarparu’r cyllid ar gyfer prynu, a chael hyfforddiant i ddefnyddio offer chwilio ac achub modern fel gêr codi trwm, camerâu chwilio a phympiau dŵr pwerus a fydd yn galluogi Awdurdodau i ymateb yn well i ddigwyddiadau, er enghraifft, lle mae adeiladau wedi cwympo neu lle ceir llifogydd ar raddfa eang.

5.24 Bydd rhaid lleoli cerbydau ac offer yng Nghymru yn strategol o gwmpas y wlad i alluogi ymateb yn effeithiol a chydlynus ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i ddigwyddiad ar raddfa fawr. Fel y bu yn achos penderfynu ar leoliad yr Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau, bydd lleoliad cerbydau ac offer ar gyfer rhan dau yn cael ei benderfynu o ganlyniad i ymarfer asesu risg gwrthrychol a chadarn.

5.25 Yr ydym yn awyddus i sicrhau ymateb cydlynus gan y Gwasanaeth Tân ac Achub pe digwyddai argyfwng mawr. Dyna paham y gwahoddwyd yr Awdurdodau Tân ac Achub (fel cam cyntaf i gydymffurfio â’r rhwymedigaethau yn adran 13 o Ddeddf 2004) i arwyddo Cytundeb Cyd-gymorth, fydd yn galluogi awdurdodau unigol i ofyn am gymorth gan awdurdod arall pe digwyddai digwyddiad.

**Firelink**

5.26 Fel yr esboniwyd yng Nghylchlythyr SDBW y Gwasanaeth Tân 7/2002, mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn ariannu prynu system radio genedlaethol newydd ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub (prosiect radio *Firelink*) er mwyn gwella cadernid a darparu rhyngweithio o fewn y Gwasanaeth a chyda gwasanaethau brys eraill. Bydd yn disodli'r systemau radio presennol sy'n eiddo i'r Awdurdodau ac a reolir ganddynt. Bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cyfrannu at gostau refeniw y system radio newydd.

5.27 Bwriedir cyflwyno'r system radio newydd yn genedlaethol rhwng 2005 a diwedd 2008, pan fydd y system radio VHF band isel a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr yn cael ei dileu. Tra bydd y prosiect *Firelink* hwn yn cael ei ddatblygu, yr ydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol diogelu perfformiad y systemau cyfathrebu radio presennol. Mae cynllun a mesurau ariannu wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod y systemau radio presennol yn parhau i weithio'n effeithiol nes y cânt eu disodli gan y system *Firelink*.

5.28 Yn Lloegr mae SDBW yn cynnig y dylid rhoi Firelink ar waith lle y bo'n bosibl, ar y cyd â gweithredu canolfannau rheoli rhanbarthol (Rheoli Tân/Achub) i wneud y gorau o allu systemau i ryng-weithredu a lleihau costau. Pery Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i brosiect Firelink, er y bydd ein trafodaethau ar fater ystafelloedd rheoli yng Nghymru yn dylanwadu ar fabwysiadu'r system newydd gan Wasanaethau Cymru. Fodd bynnag, bydd rhoi'r rhaglen ar waith yn raddol dros sawl blwyddyn yn ein galluogi i gynllunio'n ddigonol cyn i ni fod yn ymwneud â hi. Yn y cyfamser, rydym yn dymuno cydweithio â'r Gwasanaeth i sicrhau bod perfformiad parhaus y systemau cyfathrebu presennol yn cael ei gynnal.

**Hyfforddiant**

5.29 Adeiladwyd cyfleusterau hyfforddi y Dimensiwn Newydd yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân a dechreuwyd cynnal cyrsiau hyfforddi ym mis Ebrill 2004. Mae'r hyfforddiant ar gyfer diffoddwyr tân yn seiliedig ar asesiad risg a wneir gan raglen Y Dimensiwn Newydd mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau tân ac achub lleol. Mae'r hyfforddiant cychwynnol i ddiffoddwyr tân wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth y DU fel rhan o'r buddsoddiad yn y Dimensiwn Newydd. Bydd Prif Swyddogion Tân yn cydweithio â Chynllunydd Rhanbarthol y Dimensiwn Newydd i benderfynu pa bersonél sydd i dderbyn hyfforddiant y Dimensiwn Newydd.

**Pennod 6: Staff Tân ac Achub**

6.1 Adnodd pwysicaf yr Awdurdodau Tân ac Achub yw eu staff. Mae'n hanfodol fod pobl o bob cefndir a chyda phob math o sgiliau ac arbenigeddau gwahanol yn cael eu hannog i ymuno â'r Gwasanaeth, boed mewn swyddi sy'n gwisgo lifrai neu fel arall; eu bod yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl ac yn cael cynnig gyrfa wobrwyol a hyblyg.

6.2 Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu trin yn deg ac yn cael cyfle cyfartal. Dylai Awdurdodau sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu datblygu mewn modd sy'n ystyried anghenion gwahanol yr unigolyn, er mwyn cyflwyno nodau ac amcanion yr Awdurdodau Tân ac Achub yn effeithiol.

6.3 Bydd anghenion busnes yn cael eu cymell yn bennaf gan y Cynllun Rheoli Risg Integredig. Bydd hwn yn nodi pryd ac ymhle y mae angen pobl ac adnoddau eraill; sut y defnyddir hwy, mewn swyddogaethau gweithredol ac anweithredol, a pha sgiliau sy'n angenrheidiol. Dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod eu strategaeth adnoddau dynol yn adlewyrchu'n llawn yr anghenion a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Risg Integredig, ac yn cynnwys y defnydd a wneir o batrymau shifft ac arferion gwaith hyblyg.

6.4 Bydd symud o batrymau sifftiau 'yr un fath i bawb', ac o'r patrwm safonol naw tan bump i'r sawl sy'n gweithio mewn swyddi gweinyddol, yn helpu i agor drysau cyfle i bobl o wahanol gefndiroedd a chydag ymrwymiadau teuluol ac ati. Dylai hefyd olygu gyrfa fwy hyblyg a gwobrwyol i'r holl staff. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddiwygio Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân i ganiatáu i wasanaeth rhan-amser fel diffoddwr tân parhaol gyfrif tuag at yr hawl i bensiwn. Bydd hyn yn hwyluso trefniadau sydd eisoes yn weithredol mewn rhai Awdurdodau Tân ac Achub ac yn annog eraill i ymestyn yr arfer. Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau y rhoddir gymaint o gyfle ag sy'n rhesymol bosibl i bobl weithio'n hyblyg, er enghraifft yn rhan amser, gan ddefnyddio cynllun oriau hyblyg, neu weithio'n rhan o bartneriaeth rhannu swydd.

**Diffoddwyr Tân Wrth Gefn**

6.5 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi gwerth ar gyfraniad staff ar y system dyletswydd wrth gefn a'r gefnogaeth a roddir gan eu prif gyflogwyr. Mae'r staff hynny'n darparu gwasanaeth tân ac achub dros lawer iawn o ardal ddaearyddol Cymru. Mae'n bwysig gwneud defnydd llawn o'r adnodd gwerthfawr hwn, ac y gwneir mwy i ddatrys anawsterau recriwtio mewn rhai ardaloedd. Mae cyflwyno'r System Datblygiad Personol Integredig yn gyfle i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y staff sydd ar y system ddyletswydd wrth gefn trwy fanteisio ar yr hyblygrwydd a gynigia (gweler Pennod 7).

6.6 Bydd Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'r gwaith ar y System Integredig hon, yn cydweithredu gyda Llywodraeth y DU i archwilio sut y gall orau ddiwallu anghenion staff ar y system dyletswydd wrth gefn. Ychydig iawn y

mae'r amodau gwaith, gan gynnwys amser ar gyfer hyfforddiant a datblygiad, wedi newid i staff wrth gefn yn yr hanner can mlynedd diwethaf. O gofio hynny a bod angen iddynt ddarparu 120 awr o wasanaeth bob wythnos, mae'n rhyfeddol bod y system mor gadarn ag y mae yn 2005. Cydnabyddir yn gyffredinol y bydd angen i'r systemau wrth gefn yn y 21ain Ganrif adlewyrchu arferion gweithio modern a materion adnoddau dynol. Ar yr un pryd, dylai'r systemau fod yn briodol i'r risg. Aeth Awdurdod Tân De Cymru ati i adolygu ei gontractau wrth gefn yn 2001 gan ddatblygu system sy'n diwallu'r gofynion hyn. Mae'r agenda foderneiddio yn caniatáu i awdurdodau tân eraill gyflawni adolygiad tebyg.

6.7 Ym mis Rhagfyr 2003 comisiynwyd adolygiad o'r system ddyletswydd wrth gefn yng Nghymru a Lloegr. Mae Adroddiad y Tîm Adolygu'r Ddyletswydd wrth Gefnwedi ei gyhoeddi. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno adolygu'r gwaith hwn a chydweithio â Llywodraeth y DU, Awdurdodau Tân ac Achub a'r gymuned fusnes yng Nghymru i annog mwy o bobl i ymgeisio i ymuno â'r system dyletswydd wrth gefn ac i wneud y newidiadau cadarnhaol angenrheidiol i annog staff presennol i aros yn y gwasanaeth drwy:

- dynnu sylw cyflogwyr at y manteision y gall sgiliau staff ar y system ddyletswydd wrth gefn eu rhoi i'r gweithlu; a
- delio â'r rhwystrau i ryddhau gweithwyr ar gyfer eu dyletswyddau tân ac achub.

6.8 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau eu bod yn:

- gwneud defnydd llawn o staff yn y system ddyletswydd wrth gefn yn unol â'r anghenion yn eu Cynlluniau Rheoli Risg Integredig;
- rhoi mynediad i staff yn y system ddyletswydd wrth gefn at gyfleoedd datblygu sy'n cymharu â'r rhai a roddir i staff llawn amser ac eraill; ac
- chwalu'r rhwystrau arwynebol rhwng staff ar y system ddyletswydd wrth gefn a staff eraill, gan gynnwys lle bo hynny'n briodol, edrych ar opsiynau fel criwiau cymysg.

**Rheoli Adnoddau Dynol**

6.9 Bydd y rhaglen foderneiddio yn golygu y bydd galwadau ychwanegol ar Adnoddau Dynol mewn Awdurdodau Tân ac Achub. Mae cyflwyno gwell cydweithrediad rhwng Awdurdodau Tân ac Achub yn rhoi cyfle iddynt gyfuno arbenigedd yn y maes hwn, gan felly ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon.

6.10 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno ymuno gyda Llywodraeth y DU i annog datblygu swyddogaeth Adnoddau Dynol mwy medrus, proffesiynol a strategol trwy:

- annog mwy o staff AD i ennill cymwysterau proffesiynol a, thrwy gyfarfodydd rhwydweithio, seminarau a chymorth proffesiynol, i

ddatblygu eu sgiliau cynllunio gweithlu a'u gallu i helpu gyda moderneiddio'r diwylliant rheoli presennol;
- cynhyrchu llenyddiaeth ar recriwtio a gyrfaoedd, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2004, ac a luniwyd i ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i yrfaoedd yn y Gwasanaeth Tân ac Achub;
- hwyluso rhannu arferion gorau ymhlith staff AD yng Nghymru trwy ddatblygu Rhwydwaith Ymarferwyr AD y Gwasanaeth Tân ac Achub a thrwy seminarau i drafod materion cyfraith cyflogaeth ac AD allweddol; a
- nodi rôl hyfforddiant a datblygiad ar bob lefel yng nghyd-destun y Strategaeth Genedlaethol Gymreig ar Ddatblygu Gweithlu ac yn rhan o strategaeth ehangach y DU. Bydd angen i'r Gwasanaeth yng Nghymru fabwysiadu strategaeth ehangach y DU i sicrhau y gellir trosglwyddo sgiliau. Fodd bynnag, bydd strategaeth Cymru yn mynd ymhellach ac yn cynnwys materion fel sgiliau iaith Gymraeg a datblygu rheolwyr ac arweinwyr i'r Gwasanaeth Tân ac Achub drwy gymryd rhan yn y Cynllun Rheoli Sector Cyhoeddus sy'n ymestyn ar draws y sector.

6.11 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub:

- lunio strategaethau AD sy'n cwmpasu recriwtio, hyfforddiant a datblygiad, iechyd galwedigaethol, iechyd a diogelwch, gwasanaethau cyngor meddygol, rheoli salwch/gwaeledd iechyd, disgyblaeth, symudedd a strategaeth ar gydraddoldeb ac sy'n amcanu tuag at drefniadau cydweithredol yng Nghymru a fydd, yn eu tro, yn arwain at fanteision sefydliadol yn ogystal ag arbed costau; a
- chanfod a gweithredu'r modd mwyaf effeithiol ac effeithlon o ddarparu'r gwasanaethau hyn.

**Gwella cyfleoedd**

6.12 Nid yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn iawn. Dengys y ffigurau diweddaraf mai dim ond 13.2% o staff y gwasanaeth tân yng Nghymru sy'n ferched, a'r rhan fwyaf o'r rhan yn gwneud gwaith cefnogi (gan gynnwys staff ystafell reoli); a dim ond 0.4% o'r gweithlu sy'n staff o leiafrifoedd ethnig.

6.13 Dylai patrymau gweithio mwy hyblyg helpu i wella'r sefyllfa, ond ni fyddant yn ddigon ar eu pennau eu hunain.

6.14 Rhaid i'r Gwasanaeth wella ei berfformiad. Dylai'r gymhareb gyflogaeth yn y Gwasanaethau Tân yng Nghymru adlewyrchu'r amrywiaeth y gwyddom sy'n bodoli yng Nghymru a'i chymunedau, ar ôl ystyried gofynion galwedigaethol diffuant y gwasanaeth fel iechyd, cryfder a ffitrwydd. Trwy weithio gyda rhanddeiliaid, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i Awdurdodau Tân ac Achub ganfod targedau addas i adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, trwy:

- greu gwerthoedd craidd ar gyfer y gwasanaeth; meincnodi cyflawniad gwasanaethau tân ac achub mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- adolygu hyfforddiant cydraddoldeb a rôl ymgynghorwyr cydraddoldeb, ac i ba raddau y mae arferion da yn cael eu lledaenu;
- adolygu targedau ar gyfer recriwtio, datblygu a chadw staff sy'n ferched ac o leiafrifoedd ethnig; a
- rhaglen o gyd-adolygu gan gymheiriaid ar faterion cydraddoldeb rhwng y Gwasanaeth a sectorau eraill a gwasanaethau llywodraeth leol.

6.15 Yn Lloegr mae'r rhaglen yn cael ei chyfarwyddo a'i chefnogi gan Fwrdd y Rhaglen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth *Diversity Happens!,* sy'n cael ei gadeirio gan Syr Graham Meldrum (Prif Arolygydd Gwasanaethau Tân EM), ac ohoni, fe ddeillir cyfres o weithrediadau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, sef y disgwyliadau mewn perthynas â'r perfformiad cenedlaethol yn y maes hwn. Bydd y rhain yn goleuo'r broses asesu a chynllunio gwelliannau. Mae Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol, sydd ar hyn o bryd yn darparu'r canllawiau cenedlaethol cyffredinol, yn cael ei adolygu gan dîm *Diversity Happens!* gyda'r bwriad o gynhyrchu safon wedi'i deilwrio'n arbennig ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub erbyn Gwanwyn 2005. Yng Nghymru bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ymgymryd â'r gwaith hwn er mwyn gwella cyfleoedd o fewn y gwasanaeth, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Fodd bynnag, wrth wneud y gwaith hwn byddwn hefyd yn rhoi sylw i bolisïau a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad sy'n effeithio ar y Gwasanaeth, megis cyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (gweler Pennod 9).

6.16 Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub gynhyrchu strategaeth gydraddoldeb fel rhan o Strategaeth Datblygu'r Gweithlu yng Nghymru, a ddylai gynnwys targedau ymestynnol ar gyfer gwella. Dylai strategaethau Adnoddau Dynol fod yn gydnaws â Chynlluniau Rheoli Risg Integredig. Mater i'r Awdurdodau yw penderfynu pa faterion sydd orau i ymdrin â hwy yn eu strategaeth AD, a pha rai sy'n dod o dan y CRhRI, i sicrhau bod y ddau beth yn cydweddu.

**Penodi a Dyrchafu Staff**

6.17 Ar 25 Mawrth 2004 cyflwynodd Llywodraeth y DU Reoliadau'r Gwasanaeth Tân (Penodiadau a Dyrchafu) (Cymru a Lloegr) 2004 er mwyn:

- cadarnhau egwyddorion y System Datblygiad Personol Integredig, gan gynnwys disodli rhengoedd am rolau;
- dileu gofynion a allai fod yn gwahaniaethu, e.e. i fwrw prentisiaeth ar gyfer rhai rhengoedd;
- dileu'r system fynediad ar un lefel ar gyfer staff gweithredol a hwyluso mynediad ar sawl lefel, fel y gellir recriwtio staff addas yn syth i rolau heb fod yn rhai diffoddwyr tân;
- galluogi staff mewn swydd, sydd â photensial, i ddod yn eu blaenau yn gynt; a
- hwyluso cyflwyno'r profion newydd safonol cenedlaethol ar gyfer recriwtio a dewis diffoddwyr tân.

6.18 Yn dilyn diddymu Deddf 1947 ac yn arbennig y rheoliadau a wnaethpwyd dan adran 18 y Ddeddf honno, mae adran 7 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn pennu y dylid penodi holl staff Awdurdodau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar sail teilyngdod – yn amodol ar rai darpariaethau penodol dan ddeddfwriaeth gwahaniaethu a chysylltiadau hiliol a darpariaethau'n ymwneud â phenodi prif swyddogion ariannol. Rydym yn croesawu newidiadau fydd yn cyflymu'r broses o gynyddu ein hamrywiaeth. Yr ydym, fodd bynnag, yn cydnabod y prif faterion iechyd a diogelwch sydd angen sylw ar dir lle digwydd digwyddiad, gan uwch reolwyr. Felly bydd angen i ni gael ein sicrhau bod asesu cymhwysedd gweithredol wedi'i gynnwys yn yr holl brosesau hyrwyddo a phenodi. Pan fo modd i ymgeisydd ddangos cymhwysedd ym mhob maes ar wahân i berfformiad gweithredol bydd angen system ddatblygu gadarn, gytunedig y gellir ei harchwilio cyn y gellir cwblhau'r penodiad.

6.19 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub roi sylw i ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad a defnyddio arferion gorau wrth benodi a dyrchafu ar gyfer yr holl staff yn unol â gofynion cyfreithiol ac egwyddorion y System Datblygiad Personol Integredig.

**Recriwtio**

6.20 Nod Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau cysondeb, ar draws Cymru a chyda rhannau eraill o'r DU, gyda recriwtio i'r awdurdodau tân ac achub trwy weithio gyda Llywodraeth y DU i adeiladu ar y gweithgarwch presennol, sy'n cynnwys:

- cefnogi darparu llenyddiaeth recriwtio genedlaethol a gwybodaeth am yrfaoedd a ddatblygwyd ac a ariannwyd yn ganolog, i'w defnyddio gan y Gwasanaeth wrth recriwtio staff i bob rhan o'u gweithlu; a
- chyfrannu i ddiffinio'r priodweddau a'r rhinweddau personol fel y sail ar gyfer penodiad i bob swyddogaeth weithredol.

6.21 Bydd hyn yn golygu:

- datblygu profion cenedlaethol ar gyfer dewis diffoddwyr tân erbyn Gwanwyn 2005;
- cytuno ar y priodweddau a'r rhinweddau personol fydd yn sail i swyddogaethau yn yr ystafelloedd rheoli erbyn Hydref 2005;
- darparu canllawiau ar feini prawf meddygol wrth benodi a chadw diffoddwyr tân, sy'n unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995; a
- chynhyrchu canllawiau ar arferion da yng nghyswllt dewis a recriwtio holl aelodau staff y Gwasanaeth Tân ac Achub.

6.22 Lle bo hynny'n briodol, dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub:

- gymhwyso arferion da cydnabyddedig;
- cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb bresennol ar hil a rhywedd, y rheoliadau newydd ar dueddfryd rhywiol, crefydd neu gred,

gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a, maes o law, gyda'r rheoliadau ar driniaeth deg ac oed; ac

- o Wanwyn 2005 ymlaen, datblygu profion cenedlaethol ar gyfer dewis diffoddwyr tân.

**Disgyblu**

6.23 Diddymwyd Rheoliadau (Disgyblaeth) y Gwasanaeth Tân 1985 pan ddisodlwyd Ddeddf y Gwasanaethau Tân gan Ddeddf 2004. Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub yn awr weithredu gweithdrefnau disgyblu sy'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS).

6.24 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub:

- gyflwyno gweithdrefnau disgyblu ar ôl ystyried canllawiau arferion gorau ACAS;
- ystyried y cyngor a gyhoeddwyd gan Gydbwyllgor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Leol; ac
- ystyried cost, arferion gorau a'r manteision effeithlonrwydd a ddaw o gael un swyddogaeth Adnoddau Dynol dros Gymru gyfan i ddelio gyda disgyblu a materion AD eraill.

**Rheoli Salwch / Ymddeol ar Sail Gwaeledd Iechyd**

6.25 Er y cafwyd gwelliannau gyda rheoli salwch a llai o achosion o ymddeol ar sail gwaeledd iechyd, mae angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub fod yn fwy effeithiol eto.

6.26 Nod y targedau tân ac achub cenedlaethol y cytunwyd arnynt yn flaenorol ar gyfer salwch ac ymddeol yw lleihau absenoldeb oherwydd salwch yn y Gwasanaeth o 9.2 sifft am bob person yn 1998-9 i gyfartaledd o 6.5 sifft am bob person, ar gyfer diffoddwyr tân; ac o 13.4 i 5.4 sifft am bob person ar gyfer staff ystafell reoli, erbyn Mawrth 2005. Y ffigurau am 2002/03 oedd 10.2 shifft am bob person ar gyfer diffoddwyr tân a 13.0 ar gyfer staff ystafell reoli. Er eu bod ychydig yn well na rhai'r flwyddyn flaenorol, mae'r cynnydd yn parhau'n annigonol ar gyfer cwrdd â'r targed erbyn 2005. Tra bo systemau cofnodi wedi gwella ers 1998/99, nid oes unrhyw reswm amlwg am y lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch, sy'n parhau i fod yn anghyson iawn rhwng Awdurdodau.

6.27 Y targed ar gyfer ymddeol oherwydd afiechyd yw, erbyn Mawrth 2005, eu gostwng i 6.9 ymddeoliad am bob mil o weithwyr. Mae'r nifer o ymddeoliadau oherwydd afiechyd yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn, ond ar lefel o 16.9 am bob mil yn 2002/03, mae'n annhebygol y cwrddir â'r targed erbyn 2005.

6.28 Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i newid y Cynllun Pensiwn ar gyfer Diffoddwyr Tân. Bydd y newidiadau yn galluogi'r Awdurdodau Tân ac Achub i barhau i alw ar brofiad diffoddwyr tân hyfforddedig nad ydynt mwyach

yn ddigon ffit ar gyfer dyletswyddau diffodd tân, yn hytrach na gorfod gadael iddynt ymddeol gyda phensiwn gwaeledd iechyd.  Bydd yna ymrwymiad hefyd ar i Awdurdodau Tân ac Achub gyflawni asesiadau meddygol annibynnol – y bydd rhaid glynu wrthynt - cyn cymeradwyo ceisiadau i ymddeol yn gynnar ar sail gwaeledd iechyd.

6.29 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub:

- sicrhau bod eu trefniadau iechyd galwedigaethol yn effeithiol ac effeithlon ac y gall staff gael mynediad atynt;
- gwneud yn siŵr y rhoddir ystyriaeth briodol i iechyd a ffitrwydd staff a'u bod yn derbyn rolau priodol;
- sicrhau y cyflawnir targedau ar leihau absenoldeb oherwydd salwch ac ymddeol ar sail gwaeledd iechyd trwy gyflwyno a gweinyddu prosesau a gweithdrefnau rheoli absenoldeb effeithiol; ac
- ystyried y dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gael gafael ar gyngor Iechyd Galwedigaethol annibynnol.  Gellid gwneud hyn ar sail Cymru gyfan, a gellid hefyd, o bosib, ei rannu rhwng y tri gwasanaeth brys.  Dylai Cyd-weithgor y Gwasanaethau Brys ystyried potensial hyn.

**Pensiynau**

6.30  Rydym yn ymroddedig i weithio gyda Llywodraeth y DU i adolygu trefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân i gyd.  Mae gwaith wedi'i ddechrau ar ddatblygu trefniadau pensiwn newydd a fydd yn adlewyrchu'r newidiadau yn natur dyletswyddau ymladd tân o dan gynigion moderneiddio newydd; y newidiadau yn y fframwaith rheoliadau a threth ar gyfer pensiynau'n gyffredinol; a materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.  Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eisoes wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar y cynigion newydd, a rhagwelwn y bydd unrhyw gynllun pensiwn newydd yn weithredol o Ebrill 2006 ymlaen.

## **Pennod 7: Datblygu'r Gweithlu**

**Y System Datblygiad Personol Integredig**

7.1 Mae rolau diwygiedig a gwell staff y gwasanaeth tân ac achub yn golygu bod cryn alw am hyblygrwydd, sgiliau personol a chymwyseddau. Mae hyn yn wir ar gyfer holl staff y gwasanaeth tân ac achub, pa agwedd bynnag o'r gwasanaeth a gyflwynir ganddynt, ac a ydynt yn gwisgo lifrai ai peidio.

7.2 Mae'r System Datblygiad Personol Integredig newydd ar gyfer rheolaeth sefydliadol a phobl yn newid llwyr yn y modd y datblygir gweithlu'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'n cyflwyno dull o weithredu ar sail cymwyseddau ac yn darparu system ddatblygu sydd wedi'i thargedu'n benodol at anghenion yr unigolyn (Gweler hefyd Pennod 6, sy'n delio gyda materion AD penodol). Bydd newidiadau i'r rheoliadau penodi a dyrchafu staff ar gyfer staff gweithredol yn ei gwneud yn bosibl i staff ymuno ar bob lefel o'r gwasanaeth, a datblygu yn ôl eu gallu. Rhydd y System Integredig gyfle i staff sydd â photensial da i ddilyn rhaglen briodol o ddatblygiad wedi'i theilwrio.

7.3 Tra bo rhaglen y System Datblygiad Personol Integredig wedi canolbwyntio ar swyddogaethau gweithredol a rheoli hyd yma, mae gwaith sgopio cychwynnol bellach ar droed i ystyried rôl mapiau ar gyfer swyddi anweithredol yn y Gwasanaeth.

7.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r ddarpariaeth o gymorth a chyngor ar gyflwyno'r System Datblygiad Personol Integredig trwy Dimau Cefnogi Gweithredu a fydd yn gweithio o 'Graidd y System Integredig' – sef o'r ganolfan arbenigedd yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân. Mae ei rhaglen gyfathrebu yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig ac electronig, gwaith allgymorth, gweithdai a seminarau ar bob agwedd ar weithrediad y system, gan gynnwys asesu gweithle, rhaglenni datblygu a safonau galwedigaethol cenedlaethol. Bydd y rhaglen hon yn rhedeg tan ddiwedd 2005 a byddwn yn annog y Gwasanaeth i fanteisio i'r eithaf arni.

7.5 Mae galwadau'r agenda gadernid a'r ddeddfwriaeth hyfforddiant a datblygiad sydd ar fin dod allan o Ewrop yn pwysleisio'r angen am safonau cenedlaethol a gweithdrefnau cyson. Bydd dileu'r arholiadau cenedlaethol ar gyfer datblygiad gyrfaol o fewn swyddogaethau gweithredol yn gofyn am gysondeb cenedlaethol gyda'r trefniadau asesu a fydd yn eu disodli. Bydd y System Integredig yn rhoi sail i hyn.

7.6 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i:

- ddatblygu'r systemau a'r cyfryngau hyfforddiant a datblygu angenrheidiol a threfniadau asesu; a
- sicrhau, trwy Goleg y Gwasanaeth Tân, y bydd systemau sicrhau ansawdd priodol ar gyfer gweithgareddau datblygu yn eu lle, i alluogi cynnal cysondeb safonau gan amryw o wahanol ddarparwyr.

7.7 Wrth fabwysiadu a gweithredu'r System Datblygiad Personol Integredig, dylai Awdurdodau Tân ac Achub:

- ddefnyddio'r nodweddion a'r priodoleddau personol sydd wedi eu datblygu'n genedlaethol i asesu potensial ymgeiswyr am rolau newydd;
- sicrhau bod systemau yn eu lle, a hyfforddi rheolwyr, i sicrhau bod staff yn cael eu hasesu'n deg yn erbyn safonau cenedlaethol a bod asesiadau gweithle yn cael eu cofnodi'n gyson[20];
- ystyried sut y gall gweithio ar y cyd sicrhau'r manteision gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y System Datblygiad Personol Integredig;
- cefnogi'r defnydd o unrhyw drefniadau cyflog hyblyg sydd ar gael ar hyn o bryd gyda thystiolaeth gadarn, er enghraifft ar anghenion recriwtio a chadw staff a thrwy ymarferion gwerthuso swyddi; a
- chyfathrebu'r holl newidiadau i staff yn effeithiol.

**Strategaeth Genedlaethol ar Ddatblygu'r Gweithlu**

7.8 Disgwylir i ddiffoddwyr tân, staff ystafelloedd rheoli a rheolwyr ddangos cymhwysedd yn y rolau newydd o dan y System Datblygiad Personol Integredig. Mewn nifer o achosion, bydd hyn yn golygu datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol pobl. Mae sialensiau tebyg yn wynebu staff sy'n cyflawni swyddogaethau eraill o fewn y gwasanaeth. I ddiwallu'r anghenion cynyddol a mwy amrywiol hyn, bydd angen i'r Gwasanaeth edrych ar ystod o ffynonellau ar gyfer cefnogaeth hyfforddi a datblygu, gan gynnwys rhai o'r tu allan i'r sefydliadau tân ac achub traddodiadol megis colegau rheoli ac Addysg Bellach ac e-ddysgu.

7.9 I gefnogi'r Gwasanaeth, mae Llywodraeth y DU wedi llunio Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar Ddatblygu'r Gweithlu. Bydd y Strategaeth Datblygu'r Gweithlu yn ffitio o fewn fframwaith datblygu sgiliau ehangach Llywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno ystyried mabwysiadu'r Strategaeth yng Nghymru wrth i'r manylion ddod yn gliriach ac yn unol â'i pholisïau ei hun ar gyfer hyfforddiant a datblygiad.

7.10 Barn Llywodraeth y DU yw bod gorddarpariaeth o gyfleusterau datblygu a hyfforddiant tân dynodedig yn y DU, gydag ystadegau y Sefydliad Siartredig ym maes Cyfrifyddeg a Chyllid Cyhoeddus yn dangos amrywiadau helaeth yn y defnydd a wneir o gyfleusterau hyfforddi a chost eu darparu. Mae amgylchiadau penodol Cymru yn golygu y byddai'n ddymunol darparu rhywfaint o hyfforddiant ar lefel ranbarthol neu isranbarthol tra byddai'n anymarferol, am resymau daearyddol, canoli unrhyw hyfforddiant arall. Byddai hyn yn digwydd yn bennaf trwy e-ddysgu. Ychydig iawn o ddysgu a datblygu ymarferol fyddai'n bosibl ei rannu ar un safle yng Nghymru heb ddyblygu adnoddau Coleg y Gwasanaeth Tân.

[20] Gweler Cylchlythyrau y Gwasanaeth Tân SDBW 14/2003 a 20/2003

7.11 Y lle gorau i gyflwyno hyfforddiant arbenigol ar reoli digwyddiadau gweithredol a chwilio ac achub trefol yw ar faes tân unigryw Coleg y Gwasanaeth Tân, sef yr unig fan lle y gellir cyflwyno'r hyfforddiant. Bydd y strategaeth genedlaethol yn nodi rôl y Coleg yn y gwaith o ddatblygu staff tân ac achub. Mae'n cynnig, er enghraifft, y dylai'r hyfforddiant gweithredol arbenigol hwn fod yn elfen orfodol o'r SDPI mewn cyfnodau allweddol ac y dylai Awdurdodau ddefnyddio'r Coleg ar ei gyfer; ond gallai hyfforddiant gweithredol a ffug arall gael ei ddarparu'n rhanbarthol ac yn lleol. Swyddogaeth arall ddylai gael ei harwain gan y Coleg yw darparu sicrwydd ansawdd wrth gyflwyno'r SDPI, gan gynnwys achredu a sicrhau bod hyfforddwyr yn cael eu hyfforddi i safonau galwedigaethol cenedlaethol.

7.12 Byddem hefyd am edrych ar ba sgôp fyddai i ddarparwyr gwasanaethau brys gydweithredu'n well. Mae'r hyfforddiant presennol yn troi o gwmpas hyfforddiant sgiliau sylfaenol, hyfforddiant gloywi, sgiliau ychwanegol a hyfforddiant rheoli ac arbenigol. Bydd maint y cyfleusterau hyfforddi lleol yn dibynnu ar nifer a lleoliad y staff sydd angen yr hyfforddiant hwnnw. Nid yw symud nifer fawr o staff o gwmpas ar gyfer un digwyddiad hyfforddi yn gost-effeithiol, yn enwedig wrth geisio dysgu sgiliau ychwanegol i staff wrth gefn sydd angen gofyn am ganiatâd absenoldeb oddi wrth eu prif gyflogwr. Mae angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ail-edrych ar eu syniadau ar ddatblygu pobl a darparu cyfleoedd dysgu i staff. Nid yw gorddibynnu ar hyfforddiant trwy gyfarwyddo yn gost-effeithiol nac ychwaith yn ffordd ddibynadwy o sicrhau cymhwysedd yn y gweithle. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi bod yn gweithio gyda darparwr hyfforddiant i ddod i ddealltwriaeth newydd ynghylch dysgu a datblygu a fydd ar gael i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a thu hwnt.

7.13 Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi derbyn cytundeb SDBW a Llywodraeth y Cynulliad i fwrw ymlaen â chanolfan hyfforddi newydd bwrpasol, prosiect PFI y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu dros £15m o gefnogaeth refeniw ar ei gyfer. Bydd y prosiect yn cwrdd â gofynion hyfforddi personél Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, boed mewn lifrai neu fel arall; yn lledaenu arfer gorau ac yn gwella ymwybyddiaeth o dân a diogelwch tân yn y rhanbarth drwy ddarparu gwasanaethau addysg a hyfforddiant. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn falch o gefnogi'r prosiect ac yn unol â'i agenda ar gyfer hyfforddiant a datblygu o fewn y Gwasanaeth, mae'n gobeithio y bydd darparu'r ganolfan hon yn rhoi gwell cyfle i annog cydweithio o fewn y Gwasanaeth yng Nghymru.

7.14 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub:

- ddarparu hyfforddiant a datblygiad yn unol â safonau sydd wedi eu cytuno arnynt yn genedlaethol ac mewn cydweithrediad; a
- adolygu sut orau i ddatblygu pobl a darparu cyfleoedd dysgu i'r holl staff.

**Coleg y Gwasanaeth Tân**

7.15 Nod Llywodraeth y DU yw y bydd y Coleg yn parhau i ddarparu cyfleuster cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer hyfforddiant rheoli digwyddiadau gweithredol, oherwydd ei maes tân unigryw. Mae ei amcanion yn cynnwys:

- darparu, fel ei fusnes craidd, yr hyfforddiant a'r addysg sydd ei eisiau a'i angen ar Wasanaeth Tân ac Achub y DU mewn ffordd sy'n addas i'w gwsmeriaid;
- datblygu ei fusnes craidd mewn modd sy'n cynnig i gwsmeriaid hyfforddiant fforddiadwy a chystadleuol ei bris ar sail gwerth gorau, tra'n gwella ei arbenigedd a'i sefyllfa hirdymor; a
- dangos sefydlogrwydd ariannol a gwelliannau cyson.

7.16 Bydd y Coleg yn datblygu amrediad cynhwysfawr o gyrsiau i gefnogi pob agwedd ar ddatblygiad galwedigaethol, gan gynnwys diogelwch tân cymunedol, gwaith gyda phobl ifanc, deddfwriaeth diogelwch tân a rheoli risg. Bydd yn ganolfan o arbenigedd ar gynllunio paratoadau sifil gan gynnwys technegau chwilio ac achub. Mae hefyd yn disgwyl darparu hyfforddiant ar dechnegau atal ac ymateb i'r Dimensiwn Newydd, mewn partneriaeth gyda gwasanaethau brys eraill.

7.17 Mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi £5 miliwn mewn cyllid cyfalaf i wella cyfleusterau hyfforddi'r Coleg a llety myfyrwyr; a £2.5 miliwn o dan raglen y Dimensiwn Newydd i adeiladu cyfleusterau chwilio ac achub trefol newydd. Bydd £2.5 miliwn pellach ar gael i ddatblygu gweddill y llyfrau gwaith a'r modiwlau ar gyfer y System Datblygiad Personol Integredig, ac i weithredu'r system o fewn y Coleg ei hun a thrwy'r holl Awdurdodau Tân ac Achub, trwy Graidd y System Integredig a'r Timau Cefnogi Gweithredu. Mae'r maes tân yn cael ei ailwampio a'i wella i ddatblygu ei botensial fel y prif gyfleuster ar gyfer hyfforddiant Dimensiwn Newydd yn y DU.

7.18 Bydd y Coleg hefyd yn datblygu ei rôl fel canolfan rhagoriaeth trwy edrych ar bartneriaethau a, lle bo'n gwneud synnwyr, cyd-leoli gyda sefydliadau tân ac achub allweddol. Ar ôl adroddiad Tasglu'r Llywodraeth ar y Coleg[21], mae'r Coleg yn gweithio ar opsiynau ar gyfer partneriaeth gyda'r sector preifat i ddatblygu'r defnydd a wneir o'i faes tân a'i gyfleusterau.

7.19 O fewn y Strategaeth Genedlaethol ar Ddatblygu'r Gweithlu, bydd y Coleg yn chwarae rôl allweddol yn y fframwaith cefnogi ar gyfer y System Integredig. Bwriedir y bydd y Coleg yn:

- gyfrifol am bolisi canolog ar osod a chynnal y safonau galwedigaethol cenedlaethol;
- rheoli ansawdd, ac yn gyson gyda darparu'r System Integredig trwy achredu, dilysu ac efallai drwyddedu modiwlau dysgu a datblygu ar gyfer eu darparu'n lleol ac yn rhanbarthol;

---

[21] Dyfodol Coleg y Gwasanaeth Tân (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Gorffennaf 2003).

- ‘hyfforddi’r hyfforddwyr’ yn unol â safonau cenedlaethol a’r disgwyliadau ar gyfer pob arbenigedd o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub;
- adolygu a datblygu polisi ar y System Integredig yn ei chyfanrwydd, ac ar reoli systemau cofnodi; a
- rhoi cefnogaeth a chyngor arbenigol i’r Gwasanaeth Tân ac Achub ar y system a’i gweithrediad, trwy Graidd y System Datblygiad Personol Integredig.

7.20 Mae Llywodraeth y DU hefyd yn disgwyl i’r Coleg ddod yn Ganolfan Ragoriaeth Alwedigaethol. Bydd hyn yn galluogi’r Coleg i gynnig ystod ehangach o gymwysterau i staff tân ac achub.

7.21 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y wybodaeth a’r arbenigedd sydd gan y Coleg ac am sicrhau bod y Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig yn parhau i elwa o’r gwasanaethau a ddarperir gan y Coleg.

**Arweinyddiaeth**

7.22 Mae angen cymryd agwedd newydd tuag at arweinyddiaeth yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan yr Awdurdodau a chan uwch reolwyr o fewn y Gwasanaeth. Yn sylfaen i hyn, rhaid datblygu staff yn effeithiol i’w paratoi ar gyfer swyddogaethau rheoli ac i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i gyflawni’r ystod llawn o gyfrifoldebau rheoli ac arwain. Bydd pobl newydd sy’n ymuno o gefndiroedd a chyda phrofiadau gwahanol yn cynorthwyo i ddatblygu eangder a dyfnder agwedd fydd yn ychwanegu at y sylfaen sgiliau bresennol. Bydd mynediad amlhaenog a chynlluniau datblygu wedi’u targedu yn cefnogi’r nod hwn.

7.23 Dan nawdd Bwrdd Prosiect SDPI, sefydlwyd grŵp newydd i ystyried i ba raddau y mae angen model arweinyddiaeth penodol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd y grŵp, fydd yn cynnwys Coleg y Gwasanaeth Tân ac amrediad o randdeiliaid, hefyd yn gwneud argymhellion ynglŷn â dethol a datblygu arweinyddion lefel uwch ar gyfer y dyfodol.

7.24 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi’r amcanion hyn ynghyd â’r awydd i hwyluso trosglwyddiad staff medrus rhwng y sectorau cyhoeddus.

7.25 Mae cynlluniau eraill sydd ar y gweill ar lefel Cymru gyfan, fel y Cynllun Rheoli Sector Cyhoeddus a’r potensial ar gyfer cydweithredu gyda Chyd-weithgor y Gwasanaethau Brys ar hyfforddiant, yn rhoi cryn gyfle i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr.

7.26 Dylai’r Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau:

- bod eu staff presennol yn cael eu datblygu a’u cefnogi yn eu swyddogaethau arwain;
- bod staff yn cael eu cyfnewid rhwng awdurdodau a chyda sefydliadau allanol ac mewn ardaloedd awdurdod, rhwng y gwasanaeth a gwahanol wasanaethau yn ardal yr awdurdod; a

- eu bod yn ystyried sut i ddefnyddio’r hyblygrwydd newydd ar gyfer recriwtio

## Pennod 8: Materion ariannol

### Cymorth Refeniw

8.1 Mae'r gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru wedi gweld cynnydd o 52% yn y gwariant craidd i'r Awdurdodau Tân ac Achub ers 1997, o £81.46m i £107.336m yn 2003-04; a £123.884 yn 2004-05.

8.2 Bydd goblygiadau ariannol sylweddol yn deillio o'r newidiadau cenedlaethol o dan y rhaglen foderneiddio, a'r cytundeb cysylltiedig ar dâl, telerau ac amodau. Bydd angen talu am gostau'r dyfarniad cyflog ac, yn botensial, rhai agweddau ar yr agenda foderneiddio – er enghraifft, y pwyslais cynyddol ar atal. Er hynny, gellir gwneud arbedion hefyd, er enghraifft, trwy dargedu adnoddau yn well i gyfateb y risg a thrwy gydweithredu.

8.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ymroddedig i ddilyn yr agenda foderneiddio. Er hynny, cyn y gallwn wneud unrhyw benderfyniadau pendant, rydym angen bodloni ein hunain ynghylch i ba raddau y gwnaed ac yr ystyriwyd arbedion yn codi o ad-drefnu'r gwasanaeth tân yng Nghymru yn 1996; a'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda gwireddu'r potensial i wella effeithlonrwydd ymhellach. Yn ogystal, mae angen cymryd i ystyriaeth natur wledig y rhan fwyaf o Gymru wrth ystyried y posibilrwydd o wneud arbedion pellach. Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ddeall yn llawn eu cyfrifoldeb hwy i weithredu'n ddoeth wrth osod eu cyllidebau a chydnabod eu rôl wrth weithio gyda'u cynghorau cyfansoddol i gyfyngu ar godiadau yn nhreth y cyngor.

8.4 Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y gallai fod oedi rhwng costau ac arbedion moderneiddio. Mae £30m o gyllid pontio ar gael i Gymru a Lloegr, a ryddhawyd yn dilyn cynnydd boddhaol gyda moderneiddio a'r trafodaethau cyflog presennol. Nodwyd yn glir yn Rhan 1 o astudiaeth genedlaethol gwirio cyflogau y Comisiwn Archwilio ar foderneiddio yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, er bod cynnydd wedi'i wneud, bod mwy i'w wneud o hyd. Cyfran Cymru o'r cyllid yw £1.67m, a ddosbarthwyd ar sail yr Asesiad Gwariant Safonol presennol ar gyfer Tân.

### Dosbarthu

8.5 Bydd costau ac arbedion moderneiddio yn disgyn yn anwastad ar draws yr Awdurdodau Tân ac Achub. Mae hyn yn arbennig o wir am yr Awdurdodau gyda nifer fawr o ddiffoddwyr tân ar y system dyletswydd wrth gefn. Bydd gan hyn oblygiadau penodol i Gymru o gofio ein dibyniaeth ar staff ar y system dyletswydd wrth gefn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni fyddwn yn ceisio newid yr Asesiad Gwariant Safonol presennol ar gyfer Tân (a ddosberthir yn ôl cyfanswm y boblogaeth yn ôl awdurdodau lleol).

### System Leol Newydd o Fenthyca Darbodus

8.6 Disodlodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 y system bresennol o gymeradwyaethau credyd sylfaenol ac atodol i awdurdodau lleol gyda system leol newydd o fenthyca darbodus. Ers 1 Ebrill 2004, mae awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub, wedi bod yn rhydd i fenthyca i fuddsoddi heb fod wedi derbyn caniatâd Llywodraeth y Cynulliad, ar yr amod y medrant fforddio talu am y ddyled. Mae'r penderfyniad presennol ar gyllido a chodi praesept yn golygu, mewn gwirionedd, bod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy gan fod y costau dilynol yn ffurfio rhan o'r bil i awdurdodau unedol. Byddwn yn trafod gydag Awdurdodau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ddull o sicrhau defnydd call o fenthyca.

**Gwariant Cyfalaf Cynaliedig**

8.7 Dosbarthodd Llywodraeth y DU £60.53 miliwn mewn gwariant cyfalaf cynaliedig i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr yn 2004-05, ynghyd â £1miliwn ychwanegol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer canolfannau rheoli rhanbarthol a £0.15 miliwn ar gyfer caffael ar y cyd. Cyfran Cymru o'r cyllid hwn yn 2004/05 oedd £3.7m.

**Awdurdodau Tân Cyfun**

8.8 O'r 1 Ebrill 2004, daeth Awdurdodau Tân Cyfun yn Lloegr yn awdurdodau praesept mawr. Bydd yr awdurdodau hyn yn derbyn grant cymorth refeniw a chyfran o'r trethi busnes gan y Llywodraeth Ganolog, ac mae'n ofynnol iddynt godi praesept(au) ar Dreth y Cyngor i filio awdurdodau yn eu hardal am bob blwyddyn ariannol.

8.9 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu eto a fydd yn gwneud yr un fath yng Nghymru, er bod y Ddeddf yn rhoi pwerau i'r Cynulliad gyflwyno hyn yn y dyfodol, os yn briodol. Mae hyn yn gwbl gyson â'r syniad o roi arian heb ei glustnodi i Awdurdodau Unedol sydd, trwy orchmynion cyfun, yn cyflawni eu dyletswyddau trwy'r tri Awdurdod Tân cyfun. Byddai tynnu'r arian hwn oddi arnynt, mewn gwirionedd, yn clustnodi'r arian ac yn disgwyl i Awdurdodau Tân Cyfun ddal balansau ac arian wrth gefn, ymhlith pethau eraill.

**Menter Cyllid Preifat**

8.10 Yn 2003 Cyhoeddodd Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y llynedd na fyddai'n gwahodd cynghorau lleol i gynnig am gyllid penodol i helpu noddi unrhyw gynlluniau Menter Cyllid Preifat arfaethedig. Ers cyflwyno'r trefniadau benthyca darbodus newydd ar 1af Ebrill 2004 rhoddwyd mwy o ryddid i awdurdodau ddilyn trywydd y dull mwyaf addas o gaffael buddsoddiad cyfalaf, gan gynnwys Mentrau Cyllid Preifat.

**Ffynonellau cyllid eraill**

8.11 Yr ydym hefyd wedi sicrhau bod £5 miliwn ar gael ar gyfer diogelwch tân cymunedol a gwaith i leihau llosgi bwriadol ar gyfer 2004-05 a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r gweithgarwch hwn mewn blynyddoedd a ddaw.

8.12 Mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi'n helaeth yn rhaglen Y Dimensiwn Newydd ac y mae'n ariannu'r prosiect Firelink, y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn cael budd ohonynt.

8.13 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ariannu ystod eang o waith sy'n berthnasol i rôl Awdurdodau Tân ac Achub, yn benodol mewn perthynas â gweithgareddau'n ymwneud â Chymunedau'n Gyntaf a Diogelwch Cymunedol.

**Codi Tâl**

8.14 Mae'r ystod o alwadau y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymateb iddynt yn mynd ymhell y tu hwnt i ddelio gyda thanau yn unig. Mae ymateb i alwadau am wasanaethau arbennig, yn amrywio o ddamweiniau ffyrdd i lifftiau wedi torri a phobl wedi'u cloi allan o'u tai yn cyfrif am bron i hanner y galwadau y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt.

8.15 Bu gan awdurdodau hawl dan adran 3 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947 i godi tâl am ymdrin â'r galwadau am y gwasanaethau arbennig hyn. Mae Adran 19 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub yn cadw hawl i adfer y costau'n llawn. Bwriadwn ymgynghori ar y gweithgareddau y gallai Awdurdodau godi tâl amdanynt a byddwn yn manylu arnynt drwy orchymyn dan y pwêr yn Adran 19, yn ystod 2005.

8.16 Mae nifer o awdurdodau wedi arfer adfer elfen o elw wrth bennu lefel y tâl ar gyfer gwasanaethau megis darparu ymgynghoriaeth ar hyfforddiant a diogelwch. I sicrhau na fydd y ffynonellau incwm hyn yn cael eu peryglu yn dilyn cyflwyno'r gyfundrefn godi tâl newydd, byddwn yn gwneud gorchmynion masnachu dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Adolygir y rhain yn dilyn cyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yn 2005. Er y bydd y consesiwn hwn yn golygu y bydd yn rhaid i fasnachu ddigwydd drwy strwythur cwmni, gyda'r costau cysylltiedig, bydd yn ofynnol i Awdurdodau brisio'u gwasanaethau ar raddfeydd y farchnad, er budd cystadleuaeth deg. Ystyrir y bydd y cyfuniad hwn o fesurau yn niwtral o ran refeniw.

**Pennod 9: Rheoli Perfformiad yn Effeithiol**

9.1 Rhaid i bobl fod yn dawel eu meddwl bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithiol ac effeithlon.

9.2 Er mwyn sicrhau darparu'r gwasanaethau tân ac achub yn effeithiol ac effeithlon, rydym wedi gwahodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru i ddatblygu rhaglen welliannau yn seiliedig ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau statudol ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yng Nghylchlythyr 18/2002, yn datgan mai'r "amcan sy'n tanseilio'r Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yw llwyddo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cyhoedd sy'n diwallu anghenion dynodedig", yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- ymrwymiad i lwyddo i gael gwelliannau parhaus;
- rheoli perfformiad yn effeithiol;
- agwedd gyffredinol o fynd ati, yn cwmpasu gallu a pherfformiad corfforaethol yn ogystal â swyddogaethau unigol;
- camau gweithredu wedi'u targedu yn seiliedig ar asesiad o beth fyddai'n gwneud y gwelliannau mwyaf i'r cyhoedd; a
- threfn reoliadol ategol.

9.3 Mae'r egwyddorion hyn, a sefydlwyd ar gyfer llywodraeth leol, yr un mor berthnasol i Awdurdodau Tân ac Achub ac fe'u defnyddiwyd i ddatblygu Canllawiau drafft Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, ar y cyd ag ystyried ymarfer da sy'n deillio o weithredu'r system Asesu Perfformiad Cynhwysfawr yn Lloegr. Rydym wedi gweithio gyda'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu Canllawiau drafft Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella sy'n seiliedig ar elfennau strategol allweddol sy'n gyfystyr â'r agenda foderneiddio a'n blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, ond sydd hefyd yn cymharu'n dda yn genedlaethol ac yn ein galluogi i gael gafael ar wybodaeth, arbenigedd ac arferion gorau o bob cwr o'r DU.

**Gweithredu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru**

9.4 Rydym wrthi ar hyn o bryd yn trafod gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub a chyda'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru pryd i gyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ac unrhyw drefniadau dros dro angenrheidiol. Nodir y prif egwyddorion yng Nghanllawiau drafft Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i'r Awdurdodau Tân ac Achub a byddwn yn ymgynghori yn eu cylch yn ystod 2005.

9.5 Bydd Canllawiau drafft Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn seiliedig ar bump elfen:

- Arweinyddiaeth – dangos gweledigaeth glir o lwyddo; cydweithio gyda staff ac eraill i ddatblygu ei 'weledigaeth' a'i amcanion; sut mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn blaenoriaethu a'r meini prawf a ddefnyddir i lunio'r blaenoriaethau hyn; a pha mor dda mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn datblygu cynlluniau a phrosesau i gyflawni a gwireddu ei 'weledigaeth' a'i flaenoriaethau;
- Trefn Lywodraethu a Rheoli – pa mor glir yw'r strwythurau o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub; pa mor ymwybodol yw'r aelodau a'r rheolwyr o'r materion y maent yn gyfrifol amdanynt; a pha mor effeithiol yw'r rheolwyr o ran darparu gwasanaethau;
- Gallu – adnoddau a sgiliau i gyflawni; gallu ymateb i newid; a chydweithio a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill;
- Rheoli Perfformiad a Rheoli Risg wedi'i integreiddio â gwelliant parhaus; Rheoli Adnoddau Dynol a Rheolaeth Gyllidol, Mesur a Rheoli Perfformiad, Gweithrediadau, Diogelwch Tân a Sgôp ar gyfer Gwelliant Parhaus.
- E-dân ac Achub – pa mor effeithiol yw'r mecanweithiau a'r wybodaeth; a faint o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n electronig.

.

9.6 Bydd egwyddorion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn cynnwys hunanasesiad gan Awdurdodau Tân ac Achub ar sail yr elfennau yn y Canllawiau, a fyddai wedyn yn sail i asesiad risg ar y cyd gyda'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru ac ymgynghorwyr technegol eraill fel sy'n briodol. Bydd hyn yn arwain at lunio Cynllun Gwella er mwyn rhoi sylw i feysydd y mae angen eu gwella. Bydd hyn yn llywio'r Cynlluniau Integredig ar gyfer Rheoli Peryglon
a'r Cynlluniau Corfforaethol sydd gan yr Awdurdodau, a bydd yn seiliedig ar eu Cynlluniau Busnes er mwyn sicrhau bod y gwelliannau yn cael eu cyflawni. Bydd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn adolygu cynnydd yr Awdurdod i gyflawni gwelliannau ar sail ei gynlluniau ac adrodd yn ôl bob blwyddyn.

9.7 Mae'n anochel ac yn gywir ddigon y bydd sylw'r cyhoedd yn hoelio ar sut gellir gwella perfformiad. Pe digwydd i berfformiad gwael gael ei ganfod drwy archwiliad, byddwn, ynghyd â rhanddeiliaid eraill, yn ystyried strategaeth i ddelio â hyn. Ymhlith pethau eraill, bydd hyn yn cynnwys cysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub ac ystyried yr angen am gamu i mewn.

**Gwerth Gorau a Chasglu Data**

9.8 Er mwyn i Awdurdodau Tân ac Achub ddangos gwelliannau, bydd angen mesurau perfformiad cadarn a mecanweithiau pennu targedau priodol. Hoffem symud o ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad (DP) cyfredol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar fewnbynnau a rhywfaint o allbynnau, i ddefnyddio mesurau perfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau mewn fframwaith rheoli perfformiad.

9.9 Dylai'r mesurau perfformiad hyn fod yn addas at bwrpas ac yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a'r Fframwaith hwn. Mae hefyd yn bwysig i Ddangosyddion Perfformiad ganiatáu meincnodi gydag eraill a disgwylir i DP hwyluso cymharu ar draws y DU, ac yn rhyngwladol pan yn briodol. Mae DP lleol hefyd yn bwysig wrth ystyried amgylchiadau lleol ac agendâu gwella.

9.10 Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymgynghori ar gyfres newydd o DP Gwerth Gorau ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr, a bydd hyn yn berthnasol o 2005-06 ymlaen. Cynigir y bydd yr un DP hefyd yn berthnasol i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ar gyfer 2005-06. Ein bwriad ni yw ymgynghori ar y DP Gwerth Gorau hyn ar y cyd â'r Chanllawiau Tân yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae SDBW hefyd yn datblygu cyfres o DP lleol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan 'grwpiau teulu' y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r llyfrgell o ddangosyddion perfformiad lleol ar gyfer llywodraeth leol a ddatblygwyd gan y CA a'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (IdeA).

9.11 Yng Nghymru, mae Uned Ddata Llywodraeth Leol yn adolygu'r DP ar gyfer Llywodraeth Leol ar hyn o bryd, ac yn cynnull grŵp cyfeirio o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub, CLILC, y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Llywodraeth y Cynulliad i:

- ddatblygu'r DP diwygiedig;
- adolygu DP statudol cenedlaethol ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub a gofynion data eraill;
- rhoi ystyriaeth i drefniadau ar gyfer casglu, gwirio, dadansoddi a dosbarthu data perfformiad.

Bydd y grŵp cyfeirio, fel rhan o'r adolygiad, yn ystyried y gwaith cysylltiedig sy'n cael ei wneud yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

9.12 Bydd hi'n bwysig bod y Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol a'r gofynion data eraill yn integreiddio gyda Chanllawiau newydd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yr Awdurdodau Tân ac Achub. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub hefyd ystyried yr arolygiad ehangach a gomisiynwyd gan y Cynulliad o'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, tra'n cadw at gymaryddion allweddol Lloegr lle bynnag y bo hynny'n bosib.

9.13 Mae rhestr lawn y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer Cymru am 2004-05 yn Atodiad A.
Mae'r canlynol yn grynodeb o'r newidiadau prin i'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau presennol am 04/05:

- Dileu dangosydd 145, sy’n mesur cyflymder a maint ymateb yn erbyn y categorïau o dan yr hen safonau gwasanaeth tân, ac sydd erbyn hyn wedi’i ddisodli gan y Cynlluniau Rheoli Risg Integredig;
- Dileu dangosydd 147 ar yr amser a gymerir i gwblhau arolygon ar gyfer Tystysgrifau Diogelwch Tân, i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a fydd, ar ôl i’r Senedd eu cymeradwyo, yn digwydd mae’n debyg yn ystod 2004-05.  Ni fydd y tystysgrifau hyn yn ddilys ar ôl hynny ac ni roddir rhai newydd;
- Diwygio dangosydd 144 er mwyn dileu’r gofyniad iddo gael ei ddosrannu gan yr hen gategorïau risg mwyach.

**E-Lywodraeth**

9.14 Yn Cymru Ar-lein, sef Fframwaith Strategol Oes Wybodaeth Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, rhoddwyd ymrwymiad allweddol y bydd awdurdodau lleol, trwy bartneriaethau a chytundebau, yn defnyddio TGCh i ddarparu gwasanaethau o’r radd flaenaf i’r cyhoedd.  Y nod yw defnyddio technolegau priodol a mentrau cydweithredol i ddarparu gwasanaethau hygyrch, cyfeillgar, dwyieithog sy’n canolbwyntio ar ddinasyddion.

9.15  Yn yr holl gyrff gwasanaethau cyhoeddus, caiff cynnydd ei fesur trwy gyfrwng Partneriaeth Cymru Ar-lein a’r targedau perthnasol ar gronfa ddata gweithredoedd Cymru Ar-lein Mae Cyngor Partneriaeth y Llywodraeth Leol wedi sefydlu grŵp gweithgor ar y cyd sy’n llunio dulliau strategol o ymgorffori llywodraeth leol Cymru i Cymru Ar-lein.  Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi'u cynnwys yn y gwaith.

## Pennod 10: Ymchwilio

10.1 Gall ymchwil a thystiolaeth arall chwarae rhan greiddiol gyda:

- datblygu polisi;
- deall risg a datblygu strategaethau i ddelio gyda risg;
- canfod a rhannu arferion gorau; a
- goleuo'r gwaith o ddatblygu offer a thechnegau i ddelio gyda digwyddiadau, fel offer diogelu personol gwell i ddiffoddwyr tân.

10.2 Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ac adrannau o'i blaen, ers blynyddoedd lawer bellach, wedi noddi rhaglenni ymchwil, yn bennaf i oleuo gwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub a Rheoliadau Adeiladu, ond hefyd i gefnogi diogelwch tân yn fwy cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn cael ei wneud ar:

- **Reoli Risg,** yn enwedig gyda datblygu methodoleg ar gyfer Darpariaeth Frys y Gwasanaeth Tân a'r cyfarpar cysylltiedig;
- **Cadernid Sifil,** gan gynnwys prosiectau wedi eu nodi gan y Grŵp Asesu Trychinebau Adeiladau i sicrhau bod gweithdrefnau'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ddigon da i ymateb i ddigwyddiadau mewn adeiladau uchel;
- **Rheoliadau Adeiladu,** gan gynnwys astudiaethau i ddatblygu'r wyddoniaeth sydd wrth wraidd sawl agwedd ar ddiogelwch tân mewn adeiladau, a datblygu dealltwriaeth o ba mor effeithiol yw systemau dyfrio preswyl;
- **Diogelwch Tân Cymunedol,** gan gynnwys gwerthusiad o'r Gronfa Arloesi Diogelwch Tân Cymunedol; a
- **Llosgi Bwriadol,** trwy'r Fforwm Rheoli Llosgi Bwriadol.

10.3 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithredu gyda Llywodraeth y DU ar y gwaith hwn lle mae o ddiddordeb manteisiol i flaenoriaethau Cymreig a'r DU gyfan, a bydd yn cyflawni ymchwil sy'n gysylltiedig â thân ac achub sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru.

### Strategaeth Ymchwil Genedlaethol ar gyfer Tân ac Achub

10.4 Mae ymchwil hefyd yn cael ei noddi gan Adrannau eraill o'r Llywodraeth ac aelodau eraill o'r gymuned dân ac achub, gan gynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub, undebau llafur, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr, academia a chwmnïau yswiriant.

10.5 Cytunwn gydag asesiad Llywodraeth y DU bod cryn sgôp i wella cydweithrediad ar ymchwil. Mae'n gweithio i ddatblygu strategaeth ymchwil gynhwysfawr ar gyfer tân ac achub a fydd yn helpu i angori'r agenda foderneiddio a'r sialensiau newydd sy'n wynebu'r Gwasanaeth. Bydd yn

darparu strategaeth sy’n cofleidio’r cylch cyfan o ganfod risg, atal digwyddiadau, mesurau lliniaru ac ymateb brys, gan gynnwys:

- dadansoddiadau ystadegol ac eraill pellach er mwyn gallu canfod yn well pa gategorïau o bobl ac eiddo sydd fwyaf mewn perygl;
- gwaith pellach ar atal a diogelwch tân cymunedol, yn enwedig ar ddatblygu tystiolaeth o arferion da a sut y gall gwaith atal fynd i’r afael â risg tân yn gost-effeithiol;
- ymchwil i ddulliau arloesol o ymdrin â diogelwch tân wrth ddylunio ac adeiladu adeiladau; ac edrych eto ar rôl mesurau ac offer amddiffyn rhag tân adweithiol ac anadweithiol mewn adeiladau;
- ymchwil i wella ymateb diffoddwyr tân ac ymatebion brys eraill, gan gynnwys i ddyluniad a’r defnydd a wneir o offer diogelu personol, ac offer, cerbydau ac adeiladau eraill gan y Gwasanaethau Tân ac Achub;
- ymchwil i weithdrefnau chwilio, achub a diheintio ar gyfer y boblogaeth sifil, gan gynnwys defnyddio gweithdrefnau ac offer arbenigol gan y Gwasanaethau Tân ac Achub i wella cadernid sifil; a
- chefnogaeth i angori gwyddoniaeth dân o fewn amgylchedd gwyddorau cymdeithasol yn academia.

10.6 Bydd y strategaeth hefyd yn edrych ar ba wersi sydd i’w dysgu o ymchwil ryngwladol.

10.7 Y cam cyntaf fydd dyrannu’r £1 miliwn a ryddheir gan Lywodraeth y DU yn 2004-05 i gefnogi prosiectau addas yng nghyswllt busnes y gwasanaeth tân ac achub.

10.8 Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol rhwng SDBW â swyddogion mewn Adrannau eraill o’r Llywodraeth a chynrychiolwyr y diwydiant gweithgynhyrchu, academia a byd masnach. Maent wedi cefnogi’r syniad o greu Academi Ymchwil Tân ar-lein, a’i swyddogaeth gyntaf fydd creu’r strategaeth ymchwil tân ac achub genedlaethol a chynhwysfawr gyntaf. O hynny ymlaen, un o gyfrifoldebau’r Academi Ymchwil Tân fydd ceisio sicrhau bod ymchwil sylfaenol ar dân ac achub yn cael ei gynnal yn genedlaethol, fel a nodir yn y strategaeth y bydd yn cadw golwg arni.

10.9 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu strategaeth tra’n cyflawni rhaglen ymchwil bwrpasol i anghenion Cymru a heb ddyblygu gwaith sy’n cael ei wneud gan rywun arall.

**Rhaglen Ymchwil Tân Llywodraeth Cynulliad Cymru**

10.10 Yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddarparu blaenoriaethau cenedlaethol a thrawsffiniol sy’n gyffredin i’r ddau Fframwaith Cenedlaethol, i Gymru a Lloegr, bydd Llywodraeth y Cynulliad a’r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn gweithio gyda’i gilydd ar raglen ymchwil a fydd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes, ac yn enwedig yng nghyswllt datblygu model tân penodol ar gyfer Cymru.

10.11 I’r perwyl hwn, rydym wrthi ar hyn o bryd yn pwyso a mesur y ffordd orau o wneud ymchwil i ba mor ddichonol fyddai mapio’n gywir y risg y bydd cartrefi yn profi tân domestig, ar lefel ardaloedd bach, dros Gymru gyfan. Os bydd hyn yn ymarferol, dyma fydd cam cyntaf prosiect ymchwil dros dymor hir. Nod y Cynllun Diogelu Tân Cymunedol yw lleihau nifer ac effaith tanau domestig trwy ddefnyddio Timau Diogelwch Tân Cymunedol i addysgu deiliaid cartrefi am y ffactorau risg a thrwy eu perswadio i osod larwm tân neu fesurau eraill. Mae’r tri Awdurdod Tân ac Achub yn awyddus i sicrhau’r fantais fwyaf o waith eu Timau ac, o’r herwydd, yn eiddgar i ddatblygu gwell dealltwriaeth nag sydd ganddynt ar hyn o bryd o’r amgylchiadau y mae gwahanol fathau o gartref yn debygol o brofi tân o danynt, a sut yr adlewyrchir y risgiau hyn yn ddaearyddol yng Nghymru. Mae Awdurdod Tân De Cymru ar hyn o bryd yn defnyddio system GIS i’w helpu i dargedu eu hymdrechion, ond teimlir bod lle i wella ar y ffactorau risg sylfaenol sydd wrth wraidd y system hon, a’u teilwrio’n well i sefyllfa Cymru.

10.12 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub:

- wneud defnydd o ymchwil berthnasol wrth ymarfer eu swyddogaethau, er enghraifft wrth lunio’u strategaethau i atal tanau; ac
- osgoi dyblygu drwy wneud defnydd o waith eraill a rhannu eu canfyddiadau a’u cynlluniau eu hunain.

**Ystadegau**

10.13 Bydd Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog yn parhau i gynhyrchu ystadegau cenedlaethol chwarterol a blynyddol ar y nifer o danau, sy’n cael eu dadansoddi a’u cyhoeddi yn unol â chanllawiau Ystadegau Cenedlaethol llym. Hefyd, mae’n casglu a chyhoeddi data ar faterion gweithrediadol ac adnoddau dynol.

10.14 Cwblhawyd adolygiad o’r ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau tân a daethpwyd i’r casgliad y dylid casglu gwybodaeth fanwl ar bob digwyddiad lle bu’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn bresennol. Sefydlwyd grŵp diffinio data i roi cyngor ar faint o fanylion ddylai gael eu casglu ar y digwyddiadau hyn yn y dyfodol.

10.15 Cam cyntaf prosiect mwy yw’r Adolygiad i uwchraddio’r broses o gasglu data trwy gael gafael ar wybodaeth electronig yn syth gan awdurdodau. Bydd y prosiect yn gwella ansawdd y data ac yn arwain at ystadegau mwy amserol, gan alluogi nifer o awdurdodau i gael gafael ar eu data eu hunain yn gynt, wedi’i ddilysu. Byddai hyn yn gam mawr ymlaen gyda monitro cynnydd Yn erbyn Targedau a Dangosyddion Perfformiad.

10.16 Dylai Awdurdodau Tân ac Achub:

- barhau i lenwi’n amserol y ffurflenni ystadegol a anfonir atynt gan Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog; a
- cynorthwyo SDBW i sefydlu system gwbl electronig o gasglu data drwy gyfrannu eu gwybodaeth o weithdrefnau’r gwasanaeth tân ac achub a

chofnodi digwyddiadau i'r prosiect casglu e-ddata, a lansiwyd yn Hydref 2003. Bwriedir cwblhau'r gwaith hwn yn 2005.

10.17 Yn annibynnol ar hyn, bydd Llywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, yn archwilio anghenion ystadegol y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn y dyfodol.

## Atodiad

| | **Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau 2004/05** |
|---|---|
| BVPI 142 | Nifer y galwadau pan aed at y tân:<br>i) Cyfanswm y galwadau (ac eithrio galwadau ffug) fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>ii) prif danau fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>iii) tanau damweiniol mewn anheddau fesul 10,000 o anheddau. |
| BVPI 143 | Nifer y –<br>i) marwolaethau; a<br>ii) anafiadau (ac eithrio gwiriadau rhagofal) sy'n deillio o danau damweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth. |
| BVPI 144 | Canran y tanau damweiniol mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell lle y dechreuodd. |
| BVPI 146 | Nifer y galwadau wrth ymateb i alwadau ffug a maleisus fesul 1,000 o'r boblogaeth. |
| BVPI 149 | Galwadau ffug gan gyfarpar awtomatig i ganfod tân fesul 1,000 o eiddo annomestig. |
| BVPI 150 | Gwariant fesul pen o'r boblogaeth ar ddarparu gwasanaethau tân ac achub. |
| BVPI 206 | Nifer y tanau bwriadol fesul 10,000 o'r boblogaeth. |
| | |
| | |
| | **Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau Iechyd Corfforaethol** |
| BVPI 2 | i) Lefel Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol y mae'r awdurdod yn cydymffurfio â hi.<br>ii) Y ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol. |
| BVPI 8 | % yr anfonebau di-ddadl a dalwyd o fewn 30 niwrnod. |
| BVPI 11 | i) Canran y 5% uchaf o enillwyr cyflog sy'n fenywod;<br>ii) Canran y 5% uchaf o enillwyr cyflog sy'n dod o gymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. |
| BVPI 12 | i) Cyfran y dyddiau neu'r sifftiau gwaith a gollwyd i absenoldeb oherwydd salwch gan y staff llawn amser mewn lifrai;<br><br>ii) Cyfran y dyddiau neu'r sifftiau gwaith a gollwyd i absenoldeb oherwydd salwch gan yr holl staff |
| BVPI 15 | i) ymddeoliadau diffoddwyr tân llawnamser fel % o'r gweithlu cyfan;<br>ii) ymddeoliadau rheolwyr a phobl heb lifrai fel % o'r gweithlu cyfan. |
| BVPI 17 | % o staff o leiafrifoedd ethnig mewn lifrai o'r boblogaeth leifarifol ethnig mewn oedran gwaith yn ardal y frigâd. |
| BVPI 157 | Y nifer o fathau o gydweithiadau a alluogir ar gyfer e-gyflenwi fel % o'r mathau o gydweithiadau a ganiateir yn gyfreithiol ar gyfer e-gyflenwi. |